www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 535
Mehefin
2025




## Dathlu parhad...

Mae hi'n flwyddyn go arbennig i siop trin gwallt Elaine's yn Ffordd yr Orsaf, Llanrug wrth i'r teulu baratoi at ben-blwydd y busnes yn 80 oed eleni.

Mae'n glod i dair cenhedlaeth o'r un teulu bod y busnes nid yn unig wedi goroesi, ond yn dal i ffynnu yn yr oes fodern. Rydym yn lwcus yma yn y fro bod gennym fusnesau lleol, annibynnol, felly beth am gefnogi ein busnesau lleol i aros yn ein cymunedau am 80 mlynedd arall!

Trowch at dudalen 4 i ddarllen rhagor.




## ...a Chroesawu'r Newydd

Dros flwyddyn yn ôl fe gyhoeddwyd y byddai cystadleuaeth i ennill tenantiaeth fferm Llyndy Isaf yn Nant Gwynant yn cael ei ffilmio ar gyfer rhaglen deledu *Our Dream Farm* ar Channel 4.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ar ddechrau Mai, y darlledwyd rhaglen derfynol y gyfres a chyhoeddwyd pwy yw enillwyr. Trowch at dudalen 8 i ddarllen rhagor.



## Yn y rhifyn hwn:


- Sioe Waunbalŵ - tud. 3
- Holi Hwn a Holi Hon - tud. 17
- Enillwyr tenantiaeth Llyndy Isaf - tud. 8
- Cwrw ar y Cledrau yn Waunfawr - tud. 8
- Dal i redeg...rasys Moel Eilio a Rhosgadfan - tud. 24


3

24





Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Os hoffai rywun ymgymryd â'r swydd byddem yn falch iawn o glywed ganddyn nhw.

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Cwm-y-Glo**
Rhiannon Jones 07907734874
rhiannonwynjones@btopenworld.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Rhoddion

£100 Er cof am Selwyn Williams
£20 Megan Hughes, Saron, Llanrug
£20 Megan Hughes, er cof am Dafydd Huws Llanberis a Chaerdydd, fu farw 15 Ebrill 2020
£10 Alan Pritchard, Dolafon
£10 Iona a Dafydd Williams, Waunfawr



SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
MCEA
Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

# Digwyddiadur Mehefin

- **Dydd Gwener, Sadwrn a Sul, 6ed, 7fed ac 8fed Mehefin** – Cwrw ar y Cledrau Tafarn Snowdonia Parc, Waunfawr
- **Dydd Sadwrn 7fed Mehefin, 7.30pm Gig Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas. Y Penbont, Llanrug.** Rhaid archebu tocyn o flaen llaw. Cysylltwch â Donna 07789 738649
- **Dydd Sadwrn 7fed Mehefin** – Eisteddfod Deiniolen

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

**Hefin Jones**, Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Gorffennaf | 13 Mehefin | 27 Mehefin |
| Awst a Medi | 11 Gorffennaf | 25 Gorffennaf |
| Hydref | 12 Medi | 26 Medi |

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Cath.** Tirmon Clwb Pêl-droed Lerpwl yn darganfod cath yn byw'n wyllt o dan un o eisteddleoedd Anfield. Galwyd hi'n 'Red' ar gyfrif lliwiau'r tîm. Elusen Gwarchod Cathod yn ei dal a'i hail-gartrefu am ei bod wastad yn gwneud ei busnes ar y cae chwarae. Doedd dim tystiolaeth i brofi mai un o gefnogwyr Everton oedd y gath.
- **Traddodiadau.** Y Llywodraeth Llundeinig am sefydlu Cofrestr Etifeddiaeth Fyw i gofnodi'n swyddogol wahanol ddigwyddiadau a thraddodiadau byw Gwledydd Prydain. Mae hyn yn dilyn arwyddo cytundeb UNESCO yn 2008 i warchod etifeddiaeth ddiwylliannol. Tybed fydd 'Oedi am Chwarter Canrif' yn cael ei gynnwys?
- **Dathlu.** Y Llywodraeth yn ymestyn oriau agor i dafarnau ar yr 8fed o Fai (Diwrnod VE) i ddathlu 80 mlynedd o heddwch (?) ers diwedd yr Ail Ryfel Byd.
- **KFC.** Yn dilyn penderfyniad Arlywydd yr UDA i drethu mewnforion, roedd protestiadau lu yn Pakistan; cymaint felly fel y dechreuwyd ymosod ar leoedd gwerthu bwyd KFC, gyda dros 200 o bobl yn cael eu harestio.
- **Cwstad.** Ardal ar gyfer cerddwyr yn unig yn nhref Kenilworth, Swydd Warwick yn cael ei pheintio'n felyn, a'i galw gan y trigolion lleol yn Gornel Gwstad. Y bobl leol yn wfftio, ond y lliw yn denu llu o ymwelwyr. Does dim plesio pawb!
- **Siocled.** Er bod prisiau bwyd wedi cynyddu, pris siocled oedd waethaf, gyda chynnydd o 17%. Ond yn rhyfeddol, doedd dim gostyngiad yng ngwerthiant Wyau Pasg.
- **Daeargryn.** Rhybuddiwyd pobl arfordirol de Chile i adael eu cartrefi yn dilyn daeargryn nerth 7.4, a'r posibilrwydd y byddai tswnami nerthol yn boddi'r glannau......
- **....... ac un arall.** Gwyddonwyr ym Mhrifysgol Lerpwl yn cofnodi 'daeargryn' nerth 1.7 yn dilyn 60,000 o gefnogwyr Lerpwl yn neidio ar eu traed pan sgoriwyd y gôl gyntaf yn erbyn Spurs, a sicrhau Pencampwriaeth y Brif Adran Bêl-droed.
- **Mwyafrif Lleiaf.** Is-etholiad Runcorn a Helsby yn cael ei hennill o chwe phleidlais yn unig gan Blaid Reform.

# Sioe Waunbalŵ

Bu sioe ddifyr yn y Galeri yn ddiweddar. Sioe Waunbalŵ. Fuoch chi yno? Os na chawsoch chi'r cyfle i wylio'r sioe, dyma Ceri, Swyddog Marchnata a Chyfathrebu Antur Waunfawr, yn esbonio cefndir y sioe, ynghyd â thipyn o luniau i nodi'r achlysur:

"Sbel yn ôl, daeth Bara Caws atom ni yn Antur Waunfawr gyda'r syniad o gynnig gweithdai drama yn Gymraeg i unigolion ag anableddau dysgu – sef Halibalŵ. Roeddem yn falch o gael y cyfle i gydweithio ar brosiect mor gyffrous.

Llynedd, llwyddwyd i wireddu'r cynllun peilot dan arweiniad Ruth Thomas ac Emyr Gibson, dau sy'n arbenigo mewn prosiectau yn y maes iechyd a lles. Cafodd sesiynau eu cynnal bob bore Mercher yn Galeri Caernarfon am 12 wythnos. Gorffennodd y prosiect peilot Halibalŵ drwy greu ffilm, wedi'i hysbrydoli gan freuddwydion a diddordebau criw'r Antur eu hunain. Roedd y ffilm "Bys Breuddwydion Halibalŵ" yn llwyddiant mawr!



Ers hynny, rydym wedi cwblhau prosiect arall, gyda mwy o gyfranogwyr nag erioed, a'r adborth wedi bod yn wych iawn. Roedd gweld y criw'n dod yn ôl wythnos ar ôl wythnos, yn mwynhau bod gyda'i gilydd mewn amgylchedd creadigol, llawn hwyl, yn ffantastig. Rydym wedi gweld eu sgiliau a'u hyder yn tyfu'n aruthrol - rhywbeth sy'n bwysig dros ben i ni fel mudiad.

Ar gyfer ail ran y prosiect, yr uchelgais oedd cyflwyno sioe fyw, ac unwaith eto fe ddaeth syniadau'r criw yn sail i bopeth. Roedd pawb wedi dewis eu rhan yn ofalus, ac roedd y broses yn llawn hwyl, egni a chreadigrwydd. A dyma sut daeth pentref Halibalŵ i fodoli, pentref lle mae pawb yn hapus a llawn llawenydd tan wnaeth pâr o bentre' arall gynllwynio i ddwyn y goleuni a'r hapusrwydd iddyn nhw eu hunain.

Mae wedi bod yn fraint i ni yn Antur Waunfawr gydweithio gyda Bara Caws, Emyr, Ruth a thîm y Galeri. Mae eu brwdfrydedd, eu creadigrwydd a'u cyfeillgarwch yn ysbrydoliaeth go iawn. Mae'r profiad cyfan wedi bod yn un gwerthfawr, llawn llawenydd, ac yn gadarnhad o'r hyn sy'n bosib pan mae cymunedau'n dod at ei gilydd".

Gallwch ddarllen mwy am y datblygiadau diweddaraf yn Antur Waunfawr yn rhifyn nesaf yr Eco.
















# O Siop Alwyn Barbwr i Elaine's – Salon o Safon yn Dathlu'r 80




Mae hi'n flwyddyn go arbennig i siop trin gwallt Elaine's yn Ffordd yr Orsaf, Llanrug wrth i'r teulu baratoi at ben-blwydd y busnes yn 80 oed eleni.

Mae pob copa gwalltog sydd wedi bod drwy ddrysau Elaine's dros y degawdau wedi gwerthfawrogi safon y gwaith, yn ogystal â'r gwasanaeth gartrefol a chynnes.

Bu ehangu ar y busnes yn y blynyddoedd diwethaf wrth i driniaethau harddwch gael eu hychwanegu at yr arlwy gan Gemma, merch Elaine Jones.

Gemma Louise Jones yw trydydd cenhedlaeth y teulu i fod â rôl blaenllaw yn y busnes, ond Taid - neu Alwyn Barbwr - ddechreuodd y cyfan pan agorodd ei siop barbwr yn 1945. Ystafell flaen y tŷ sydd drws nesaf i ble mae'r salon heddiw oedd y lleoliad, ac Alwyn Williams yn adnabyddus yn yr ardal ac yn croesawu dynion a merched i'w gadair. Ar ôl y rhyfel bu galw mawr am ei wasanaeth - digon iddo ehangu a symud i ofod mwy yn Neiniolen. Ar ôl llawer o flynyddoedd hapus yno, dychwelyd i Lanrug oedd ei hanes a sefydlu'r salon yn yr adeilad ble y mae hi heddiw.

Dilynodd Elaine yn ôl siswrn ei thad, a mynd ati i redeg y busnes hanner can mlynedd yn ôl, pan wnaeth Alwyn Barbwr ymddeol. Dros y blynyddoedd, mae Elaine wedi troi ei llaw at beth bynnag sydd yn galw yn y byd trin gwallt, ond erbyn hyn, does dim yn well ganddi na thrin y cwsmeriaid ffyddlon sy'n dychwelyd ati bob wythnos. Yn eu plith mae ambell gleient a oedd hefyd yn gwsmer i Alwyn Barbwr, ac maen nhw'n falch o dderbyn triniaethau a steiliau gwallt clasurol.

A phwy ddaeth nesaf i ymgymryd â'r busnes prysur hwn? Wel, wyres Alwyn Barbwr wrth gwrs - Gemma. Mae Elaine yn dal i'w helpu i redeg y salon, ond Gemma bellach yw'r prif gyswllt ar gyfer y busnes ac mae hi wrth ei bodd yn gweld y salon yn addasu i dueddiadau'r oes, tra'n parhau i gadw'n driw i'w gwreiddiau. Mae Gemma yn treulio hanner ei hamser 'yn' y busnes a'r hanner arall 'ar' y busnes - yn ei ddatblygu ac yn sicrhau bod Elaine's yn symud gydag anghenion y cyfnod.

"Mae o'n gyfrifoldeb mawr i gario enw da y busnes ymlaen ar ôl Taid", meddai Gemma. "Dan ni'n ffodus iawn bod ganddom ni gwsmeriaid sydd wedi bod yn dod atom dros gyfnod y tri chenhedlaeth deuluol, ac yn barod iawn i ddweud hanesion Taid, am sut roedd o'n smocio wrth dorri gwallt a'r mwg yn dod allan o'r drws!

"Dwi'n siwr petai Taid yn gweld y salon a thwf y busnes heddiw mi fyddai o'n browd iawn o be' dan ni wedi ei gyflawni."

Ond beth am y genhedlaeth nesaf? Er mai dim ond 5 a 3 oed ydi Lidia ac Efan, plant Gemma, maen nhw wrth eu boddau yn dod i mewn i'r salon i gymdeithasu efo'r cwsmeriaid.


"Mae fy mhlant inna' yn mwynhau cael cyfle i weld y gwaith sydd yn mynd ymlaen yn y salon," meddai Gemma. "Mae rhai o'r cwsmeriaid yn cofio fi yr run oed â Lidia yn dod i 'weithio' acw efo fy mhen doli, yn rhoi rolars ynddo fo ac ati!

"Pwy â wyr os welith y busnes bedwerydd cenhedlaeth yn cymryd drosodd - mae'r diwydiant yn newid mor gyflym erbyn hyn. Ond y gobaith ydi i ddal ati i dyfu'r tîm, a chael llawer o flynyddoedd llewyrchys am ddegawdau eto i ddod."

Teg dweud y byddai gadael i garreg filltir mor fawr â phen-blwydd yn 80 oed basio heb sylw teilwng yn 'wallt-go', yn bydda'! A dyna pam bod gwahoddiad i bawb ymuno yn y dathliadau fydd yn digwydd tua diwedd y flwyddyn - felly cofiwch drefnu apwyntiad i wneud yn siwr bod eich gwallt ar ei orau ar gyfer y parti!











Cofiwch y bydd Eisteddfod Deiniolen yn ôl unwaith eto ar y 7fed o Fehefin. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Ysgol Gwaun Gynfi ym mhentref Deiniolen, lle bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal eleni.

Mae'r testunau eisoes ar gael ar safle Facebook yr Eisteddfod neu gallwch gysylltu â'r Ysgrifenyddes am gopi ar e-bost - nesta.elliott59@gmail.com Yn ogystal mae cyfeiliant ar gyfer cystadlaethau lleision unigol cynradd i'w cael ar y dudalen hon.

Cyfyngir cystadlaethau oedran cynradd i blant Ysgol Gwaun Gynfi a phlant cylch Dinorwig a Chlwt y Bont yn unig.

Bydd angen i gystadleuwyr offerynnol a chanu sydd angen cyfeiliant i ddarn hunan-ddewis, ddanfon eu cyfeiliant i'r Is-Gadeirydd erbyn 22ain Mai, 2025 yn ddi-ffael

Bydd angen gyrru copiau/recordiau sain ar gyfer Sgen Ti Dalent i'r Ysgrifennydd yn ogystal a phob darn o waith llenyddol hefyd gael ei anfon i'r Ysgrifennydd erbyn yr 22ain Mai, 2025.

Dylid dod a'r holl waith Celf a Chrefft, Ffotograffiaeth a Choginio i Ysgol Gwaun Gynfi rhwng 4:30 a 5:30 pm Dydd Gwener 6ed Mehefin, 2025 i'w feirniadu am 6:00pm.

Bydd angen casglu'r gwaith yn ôl o'r Ysgol rhwng 7.30 ac 8.30pm ar y nos Wener hefyd.




Bydd gwaith yr enillwyr yn cael ei arddangos ar ddiwrnod yr Eisteddfod a chaiff enwau'r enillwyr eu cyhoeddi ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

Mae'r holl gystadlaethau oedran Uwchradd ac Agored/Dros 18 oed ar agor i bawb wrth gwrs.

Dewch draw, dim ond megis dechrau ydan ni ond yn gobeithio mynd o nerth i nerth gyda'ch cefnogaeth chi!

**Neges gan y Cynghorydd Elfed Wyn Williams**

Diolch i staff y Cyngor am dorri coed ar waelod Allt Sam yn ddiweddar.

Bydd yr Uwch Beiriannydd mewn cysylltiad pan fydd dyddiad wedi ei benodi i atgyweirio'r draen ger Bryntirion.

Dyma waith ailwynebu gafodd ei wneud gan y cyngor, ger Ysgol Gwaun Gynfi. Falch o weld eu bod wedi ail-baentio'r bae anabl a'r bae bysiau.




Bwriad y Cynllun Arbed, a ariannwyd gan lywodraeth Cymru, oedd gwella effeithiolrwydd ynni'r tai lleol, gan sicrhau y byddai'r perchnogion â biliau ynni is.

Oherwydd safon y gwaith a wnaed, nid yw hyn wedi digwydd.

Felly rhoddais gwestiwn gerbron y cyngor llawn yn ddiweddar:

"Ydi'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod trigolion Arfon i gyd yn derbyn gwaith atgyweirio gan Lywodraeth Cymru ac yn derbyn y gefnogaeth briodol sy'n ddyledus iddynt?

**Parti Agoriadol**

Gwahoddir chi i Barti Agoriadol Caban Cynfi sydd i'w gynnal ar 21ain Mai am 6.30pm. Dyma gyfle gwych i chi gael gweld yr adeilad ar ei newydd wedd ac i fwynhau adloniant a bwyd - i gyd yn rhad ac am ddim.




**Clwb Snwcer**

Cynhelir cyfarfod arbennig ynglŷn â dyfodol Clwb Snwcer Deiniolen ar ddydd Mercher y 4ydd o Fehefin am 7.00pm. Pwrpas y cyfarfod yw codi pwyllgor o'r newydd, er mwyn dyfodol y clwb.

DEWCH I GEFNOGI. Pawb sydd â diddordeb i gysylltu efo'r Cynghorydd Elfed Williams cyn dyddiad y cyfarfod ar 07729394230.

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

**Cefnywaun ac Ebeneser**

Dyma drefn yr oedfaon yn Nhŷ Elidir am y mis nesaf.

25ain Mai: Dim oedfa
1af Mehefin: Y Parchg Huw Pritchard am 5.00 pm
8fed Mehefin (Sulgwyn): Mr Robert Morris am 5.00 pm
15fed Mehefin: Dim oedfa
22ain Mehefin: Dim oedfa
29ain Mehefin: Mr Arwel Williams am 3.30 pm





# Ysgol Waunfawr



**Dringo : Llanberis**
Diolch yn fawr i Tom Gwynedd a Gerallt am ein hebrwng ar daith ddringo yn Llanberis yn ddiweddar. Bu i bob un unigolyn ddringo yn wych, a dangos hyder a dyfalbarhad wrth geisio sgil newydd. Braf oedd cael dysgu am hanes Craig Yr Undeb a gweld golygfeydd godidog Llanberis hefyd.

**Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd**
Pob lwc i Erwan Roberts a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod ym Mharc Margam yn ystod gwyliau Sulgwyn. Croesi popeth iddo.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau enfawr i Mrs Lisa Griffiths a'r teulu ar enedigaeth Ned Glyn. Dymunwn y gorau iddynt a gobeithio gallu croesawu Ned i'r ysgol yn fuan iawn.

Llongyfarchiadau hefyd i Anti Anne a Mr Clarke am ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Bydd Enfys Ann yn eneth hynod o lwcus a bydd yn adnabod ei llythrennau mewn dim!

**Cydymdeimlad**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth annisgwyl Mr Gareth Roberts yn ddiweddar, ac yntau yn ein tywys ar daith ychydig wythnosau yn ôl. Cafodd y plant brofiad hynod o ddifyr yn ei gwmni a dwi'n siŵr y bydd yr hanesion yn aros yn y cof am byth. Pob cydymdeimlad i deulu Mr Roberts yn eu galar.

**Gornest Ddarllen**
Bu dau dîm yn cystadlu yn yr ornest ddarllen gan Y Cyngor Llyfrau eleni, sef tîm blwyddyn 5+6 a thîm Bl 3+4. Bu i'r ddau dîm wneud cryn argraff ar y beirniad wrth drafod y ddau lyfr, ac yr oedd canmol mawr i'w trafodaethau. Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm Bl 3+4 a ddaeth yn fuddugol. Bydden nhw yn teithio i Aberystwyth fis Mehefin ar gyfer yr ornest Genedlaethol.





**Fron Goch**
Bu'r dosbarth Meithrin ar daith i Fron Goch yn ddiweddar fel rhan o'u thema garddio. Diolch yn fawr iawn i'r staff am y croeso cynnes ac am dywys y plant o gwmpas. Bydd y plant yn mynd ati i blannu a dyfrio yn ystod y tymor.



**Celf a Chrefft yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r holl blant a fu'n cystadlu eto eleni, ac i Gyfeillion Yr Ysgol a rhieni eraill a fu'n cynorthwyo. Bydd gwaith Nico Hamer yn cael ei arddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Margam.

Dyma'r canlyniadau:
Llun 2D Bl 2 ac Iau: Nico Hamer 3ydd
Cymeriad Cartŵn Bl 6 ac Iau: Elliot Jones 3ydd
Cynllunio Crys T Bl 5+6: Lara Siôn 2il
Argraffu Bl 2 ac Iau: Nico Hamer 1af
Ffasiwn Bl 6 ac Iau: Macsen Hamer 2il
Pyped Bl 2 ac Iau: Llio Pyrs 2il




**Podlediad Dalgylch Brynrefail**
Braf oed gallu croesawu Marc Griffiths i'r ysgol yn ddiweddar ar gyfer creu podlediad ar gyfer Cynllun y Gymraeg gydag Ysgolion Dalgylch Brynrefail. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur iawn yn llunio a recordio y podlediad. Gallwch wrando ar eu gwaith ar Spotify neu Amazon.




**Rygbi**
Dyma dîm arbennig o enethod! Bu iddynt gystadlu mewn twrnament Rygbi Tag yr Urdd yn ddiweddar. Mae ambell i seren ddisglair yma - daliwch ati enethod!









**Cyngerdd**

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cefnogi'r cyngerdd i ddathlu llwyddiannau'r eisteddfod yn ddiweddar. Yr oeddem yn ffodus iawn o gael cwmni Miri Siôn yn canu alaw werin, a Lois Eifion a nain Henri Jones yn cyfeilio ar y piano. Casglwyd £150 ar gyfer bws Glan Llyn y plant, diolch am eich haelioni.

## Ysgol Dolbadarn





**PC Dylan**

Ar yr 8fed Mai, daeth PC Dylan at ddosbarth Glyder i drafod ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nod y sesiwn oedd cael y disgyblion i adnabod beth yw'r math yma o ymddygiad a'r ymateb sydd gan yr Heddlu tuag at hyn.

Erbyn diwedd y sesiwn, roedd yr holl ddisgyblion yn ymwybodol fod eu hymddygiad yn gallu arwain at fod yn wrth-gymdeithasol ac felly yn gallu arwain at y 4 cam y mae'r Heddlu yn ei ddilyn fel ymateb i ymddygiad o'i fath.

Diolch yn fawr iawn i PC Dylan am rannu'r neges bwysig.

ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

## WAUNFAWR

**Genedigaethau**
**Taid a Nain newydd –** Llongyfarchiadau mawr i Anne a Dean Clarke, Pant Waun ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd Enfys Ann i Dewi a'i wraig Hannah ym Mhwllheli. Dwi'n siwr bydd yr holl flynyddoedd o ofalu am blant bach Dosbarth Derbyn Ysgol Waunfawr yn dod i mewn yn handi iawn rŵan Anne! Mae Enfys hefyd yn or-wyres i Grace Dawson a Gladys Greasley. Pob hwyl i chi gyd ar y magu.

**Llongyfarchiadau** mawr i Marc a Hannah, Ystrad, Betws Garmon ar enedigaeth eu merch fach gyntaf Mabli Cêt, ac i Veronica Owen, Gwêl y Mynydd sy'n nain am y tro cyntaf. Dwi'n siŵr bod pawb wedi gwirioni.

**Brysiwch wella** – cofion cynnes iawn at bawb o'r pentref sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty neu wedi cael triniaeth yn ystod y mis aeth heibio. Cofion arbennig at Bernard Parry, 1 Bryn Golau a Nan Roberts, Pant Afon, y ddau wdi bod yn yr ysbyty am gyfnod. Gobeithio byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

**Croeso i Waunfawr**
Croeso cynnes i'r pentref i Carys a Dafydd Hamer sydd wedi symud o'r Ceunant i Ysgubor, 1 Cae Glas. Mae Carys a Dafydd am newid enw'r tŷ i Crai Hen, 1 Cae Glas. Gobeithio byddwch yn hapus iawn yn ein mysg.

**Cwrw ar y Cledrau – Waunfawr**
Eleni, mae'r ŵyl boblogaidd hon yn cael ei chynnal yn Waunfawr am y tro cyntaf yn ei hanes. Oherwydd gwaith adeiladu yng ngorsaf rheilffordd Dinas, nid yw'n bosibl ei chynnal yno, ac mae Carmen a staff Tafarn Snowdonia Parc , Waunfawr wedi cynnig cynnal y digwyddiad gyda chefnogaeth tîm Rheilffordd Eryri.

Wedi misoedd o gynllunio, bydd pawb yn gobeithio am dywydd braf a phenwythnos llawn hwyl ar Fehefin 6ed, 7fed ac 8fed. Bydd cerddoriaeth fyw a bwyd ar gael a gweithgareddau i'r plant.

Bydd modd dal trennau o Gaernarfon neu bysiau S3 arferol sy'n rhedeg pob awr.

Yn ogystal â chefnogwyr arferol yr ŵyl, gobeithio bydd pentrefwyr Waunfawr hefyd yn cefnogi drwy ymweld yn ystod y penwythnos. Pob lwc i Carmen a'r tîm!




**Enillydd Gwobr Dewi Tomos**
Llongyfarchiadau anferthol i Gruff Anderson ar gael ei enwebu ar gyfer y Wobr yma eleni gan glwb rhedeg Eryri Harriers. Mae'r wobr yn cael ei rhoi i'r person ifanc mae'r Clwb yn deimlo sydd wedi gwella ei berfformiad mwyaf yn ystod y flwyddyn.

Nid ar chwarae bach mae ennill y wobr yma, ac mae'n amlwg dy fod wedi gweithio yn galed iawn drwy'r flwyddyn Gruff. Rydym fel pentref yn falch iawn o dy lwyddiant, ac yn edrych ymlaen i dy weld yn dabtlygu ymhellach yn y gamp. Da iawn chdi.




# Enillwyr tenantiaeth Llyndy Isaf

Dros flwyddyn yn ôl roedd clawr Eco'r Wyddfa yn datgan bod dyfodol fferm Llyndy Isaf yn Nant Gwynant yn 'destun sioe'. Bryd hynny fe gyhoeddwyd y byddai cystadleuaeth i ennill tenantiaeth y fferm yn cael ei ffilmio ar gyfer rhaglen deledu *Our Dream Farm* ar Channel 4.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ar ddechrau Mai, y darlledwyd rhaglen derfynol y gyfres a chyhoeddwyd pwy yw enillwyr tenantiaeth 15 mlynedd Llyndy Isaf. Croeso i'r fro Ioan Jones a Sara Jenkins!

Mae'r ddau yn 28 oed ac yn dod o gefndir ffermio yng Nghymru. Cafodd Ioan ei fagu ar fferm ddefaid a bîff ym Moduan yng Ngwynedd, ac fe gafodd Sara ei magu ar fferm ei theulu yn Nhal-y-bont yng Ngheredigion.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw perchnogion Llyndy Isaf, ac roeddynt yn rhan o'r broses o ddewis yr enillwyr. Fe roesant Ioan a Sara ar brawf am dair wythnos i ddechrau i weld sut y byddant yn ymdopi a'u cartref a gwaith newydd, ond fe symudodd y cwpl i Lyndy Isaf yn barhaol cyn y Nadolig y llynedd.

Mae'r fferm yn cynnwys caeau tir isel, coetiroedd a thir pori mynyddig ynghyd â ffermdy pedair ystafell wely ar lan Llyn Dinas.

Mae anecs dwy ystafell wely ar gyfer croesawu twristiaid hefyd yn rhan o'r denantiaeth. Mae'r cwpwl wedi dewis byw yn yr anecs ar y fferm am y tro gan osod y ffermdy pedair ystafell wely fel cartref gwyliau.

"Mae'r ffermdy yn llawn ar gyfer y mis yma felly mae pethau'n mynd yn dda," meddai Sara.




Hawlfraint Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol




Yng ngeiriau Ioan,

"Rydym mor falch o gael ein dewis ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i adeiladu bywyd efo'n gilydd yma yn y lleoliad hardd hwn," meddai.

Croeso i chi'ch dau i fro'r Eco.


# Grantiau i fudiadau lleol

Mae Cyngor Gwynedd newydd gyhoeddi'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn i fudiadau cymunedol ac elusennau lleol ymgeisio am grantiau. Mae tair cronfa wahanol ar agor -

**Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau** sy'n cynnig grantiau rhwng £10,000 a £100,000 er mwyn:
(i) Annog cymunedau i gymryd rôl mwy rhagweithiol yn eu hardaloedd
(ii) Hybu buddsoddiad a datblygiad yr economi leol
(iii) Gwella lleoliadau sy'n bwysig i gymunedau
(iv) Cynyddu cyfleoedd gwaith, datblygiad sgiliau ymhlith unigolion o fewn cymunedau a hybu cyfle cyfartal i bawb
(v) Cyfrannu tuag at ddatblygiad cynlluniau gweithredu 'Ardal Ni'




**Y Gronfa Cefnogi Cymunedau** sy'n cynnig hyd at £10,000 er mwyn cefnogi cynlluniau neu wasanaethau newydd neu ffyrdd newydd o wasanaethu sydd yn cyflawni amcanion pendant ac amlwg. Gall hyn gynnwys:
(i) Annog cymunedau i gymryd rôl mwy rhagweithiol yn eu hardaloedd
(ii) Adnabod ac ymateb i anghenion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned
(iii) Hybu buddsoddiad a datblygiad yr economi leol
(iv) Gwella lleoliadau sy'n bwysig i gymunedau
(v) Cynyddu cyfleoedd gwaith, datblygiad sgiliau ymhlith unigolion o fewn cymunedau a hybu cyfle cyfartal i bawb
(vi) Cefnogi gwirfoddolwyr a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli
(vii) Annog gwarchod a chyfoethogi'r amgylchedd




**Cronfa'r Degwm** sy'n cynnig hyd at £3,000 ar gyfer gwaith fyddai'n cyflawni un neu fwy o'r amcanion yma:
(i) Hybu gwybodaeth a gwerthfawrogiad o gelfyddydau a llenyddiaeth Cymru
(ii) Darparu neu gynorthwyo i ddarparu cyfleusterau ar gyfer adloniant neu weithgarwch amser hamdden arall;
(iii) Hybu diddordeb pensaernïol, hanesyddol neu wyddonol sy'n ymwneud a Chymru.
Elusennau cofrestredig yn unig all ymgeisio am arian o Gronfa'r Degwm.

Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau i'r ddwy gronfa ydi 15fed Mehefin, ac mae'r manylion a'r ffurflenni cais i'w cael ar wefan y Cyngor - www.gwynedd.llyw.cymru/grantiaucistgwynedd

Mae swyddogion Cyngor Gwynedd ar gael i gynnig arweiniad i chi. Awgrymir yn gryf y dylid cysylltu gyda Swyddog o'r Cyngor i drafod y cynllun cyn ymgeisio.

Y swyddog lleol i ddalgylch Bro Lleu/Nantlle a Bro Peris yw Mark Gahan. Cysylltwch â Mark drwy ebost ar markgahan@gwynedd.llyw.cymru; rhif ffon: 07901 893006.

Os na fedrwch chi gyflwyno cais erbyn y 15fed Mehefin, yna mae opsiwn arall i chi. Mae'r cyngor yn hapus i dderbyn ceisiadau am lai na £1,000 ar unrhyw adeg, a byddant yn anelu i brosesu ceisiadau o'r fath o fewn 4 wythnos gwaith, yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael.









# LLANBERIS

Dathlu penblwydd arbennig iawn!
Llongyfarchiadau mawr i Megan Hughes, Daron, Llanrug ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed yn ddiweddar.

Cafodd Megan ei geni a'i magu yn Aberdaron ond symudodd hi, a'i gŵr Alun, i fyw i Lanberis yn 1948. Efallai bod rhai ohonoch yn cofio Alun, neu "Hughes Insiwrans", oedd yn gweithio i gwmni *Pearl* yn yr ardal.

Roedd y teulu yn byw yn Llwyndyrs, ac yno y magwyd Dafydd, John a Gwenda. Symudodd y teulu i fyw i Rhes y Faenol yn 1966 a chartrefu yn syth ymysg cymdogion croesawgar a chwmni annwyl Ceri ac Elwyn Hughes drws nesaf.

Bu farw Alun yn 65 oed a symudodd Megan i fyw i Lanrug yn ddiweddarach, er mwyn bod yn agos at Gwenda a'r teulu. Mae'n ymweld yn gyson â Llanberis gan fod ei mab John, a'i wraig Shirley, yn dal i fyw yno.

Bu farw Dafydd, ei mab hynaf, yn 2020. Merch Dafydd ydi'r prifardd Catrin Dafydd ac fe ysgrifennodd hi gerdd i'w nain ar ei phen-blwydd yn 100 oed.

**I Nain**
(ar achlysur ei phen-blwydd yn gant oed)

Fe wawriodd dydd arbennig
i'w sawru fel y gwin
gan fwrw'i swyn dros Enlli
a wybren faith Pen Llŷn.

Daw cân o gopa'r Wyddfa
a'i chriw sy'n dathlu'n rhwydd
fod Megan, ein Penteulu,
yn un â'i chanfed blwydd!

Ein Nain â'i myrdd gyfeillion
hyd Wynedd a thu hwnt -
Nain nerthol sy'n byrlymu,
ddireidus ferch y swnt.

Dwy lygad las sy'n pefrio
bob awr fel sglein y lli
a chwarddiad tasgu perlau
sy'n goglais drwom ni.

Er magu teulu dedwydd
ar lethrau'r Wyddfa hardd
yn un â'i phriod Alun -
yn Llŷn yr oedd eu gardd.

Yn Glasfor ac Uwchmynydd,
Post Sarn ac Enlli'n un
mae awen eigion Megan
a'i henaid ym Mhen Llŷn.

Ar amrant, aeth can mlynedd,
ei chefnfor dwfn a chain.
Cyd-ddathlwn heddiw'n llawen
ganmlwyddiant geni Nain!

**Catrin Dafydd**



***Megan, gyda John a Gwenda, yn dathlu ei phen blwydd yn 100 oed yn Y Felin, Pontrug.***

**Grŵp crosio a gwau Llanberis**
'Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob Nos Lun o 6pm tan 7.30pm, am ddim. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo**
Byddwn yn cyfarfod yn y Ganolfan bob prynhawn Dydd Iau, 2 - 4 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Capel Coch**
**Hen stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw Hen Stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi Gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gelli'r rhoi'r Stampiau yn y Cyntedd neu i un o'r Swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y Cyntedd, unrhyw Sul.

**Oedfaon Capel Coch mis Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| 1af Mehefin | 10.00am | Parch Hugh Pritchard |
| 8fed Mehefin | 10.00am | Parch Glenys Jones |
| 15fed Mehefin | 2.00pm | Parch Nerys Griffiths |
| 22ain Mehefin | 10.00am | Mr Arwel Williams |
| 29ain Mehefin | 2.00pm | Parch Iwan Ll Jones |
| 6ed Gorffennaf | 10.00am | Parch John Pritchard |

**EGLWYS SANT PADARN**
**Gwasanaethau mis Mehefin**

| | |
|---|---|
| 25ain Mai | 9:30yb - Boreol Weddi |
| 1af Mehefin | 9:30yb - Cymun Bendigaid |
| 8fed Mehefin | 9:30yb - Cymun Bendigaid |
| 15fed Mehefin | 9:30yb - Boreol Weddi |
| 22ain Mehefin | 9:30yb - Boreol Weddi |
| 29ain Mehefin | 9:30yb - Cymun Bendigaid |

**Isaac Hughes**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a 2:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

# NANT PERIS

**Eglwys St Peris**
Cynhelir gwasanaeth bob bore Sul a bore Mercher am 9:30yb.

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco.
Diolch yn fawr.


Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

# Un funud fach …

## YSBRYD DUW

Ail Sul Mehefin (8fed dydd y mis) fydd y Sulgwyn eleni, saith wythnos neu hanner can niwrnod wedi Sul y Pasg. 'Yr hanner canfed' ydi ystyr y gair Groeg *pentêcostê* a roes yr enw 'Pentecost' i'r Ŵyl; ac ar yr hanner canfed dydd wedi'r Pasg y daeth yr Ysbryd Glân ar ddisgyblion ofnus a dryslyd Iesu Grist i roi cychwyn i'w cenhadaeth, gan roi i bob pwrpas enedigaeth i'r Eglwys Gristnogol. Fu dim byd yr un fath wedi'r diwrnod hwnnw, a chofio hynny a wneir bob tro y dethlir yr Ŵyl hon.

O blith prif wyliau'r Ffydd Gristnogol, y Sulgwyn ydi'r fwyaf dieithr a'r fwyaf anodd ei deall. Mae'r Nadolig a'r Pasg yn llawn rhyfeddod: y naill yn sôn am Fab Duw yn dod i'r byd yn fabi bach, a'r llall yn cyhoeddi ei farwolaeth ddirprwyol a'i atgyfodiad. Ond rhywsut, mae'r naill a'r llall yn gwbl gyfarwydd hefyd am fod geni a marw yn rhan mor naturiol a sylfaenol o fywyd pawb. Ond nid felly'r Sulgwyn a'i sôn rhyfedd am y sŵn fel gwynt nerthol, a'r tafodau o dân yn disgyn ar y disgyblion. Mae'r olygfa honno mor gyfan gwbl wahanol i ddim sy'n rhan o'n profiad cyffredin. Mae'n werth darllen ail bennod Llyfr yr Actau i gael yr hanes yn llawn am ddyfodiad yr Ysbryd a'r hyn a'i dilynodd, wrth i Simon Pedr bregethu yn nerth yr Ysbryd. Nid heb reswm, ac nid yn ddiystyr chwaith y cyfeirir at y Sulgwyn fel dydd pen-blwydd yr Eglwys o gofio mai o'r dydd hwnnw ymlaen y dechreuodd y disgyblion – yn nerth yr Ysbryd a ddaeth arnyn nhw – gyhoeddi'r newydd da am Iesu Grist.

Un o gymwynasau'r Ŵyl ydi ei bod yn ein hatgoffa mai gwaith Duw ydi gwaith ei Eglwys. A Duw ei hun a ŵyr bod angen ein hatgoffa o'r ffaith nad ein gwaith ni mohono. Duw ei hun, a Duw yn unig, sy'n llwyddo'r gwaith. Ni fyddai'r disgyblion wedi cyflawni dim oni bai am yr hyn a wnaeth Duw ar y Sulgwyn. Mi fydden nhw wedi aros yn dawel. Yr Ysbryd Glân a'u deffrodd, gan eu nerthu a'u galluogi i gyhoeddi'r Efengyl. Yr Ysbryd Glân a rymusodd eu tystiolaeth. Yr Ysbryd Glân a fendithiodd eu gwaith. Nid Pedr na'r un o'i gyd-ddisgyblion fu'n gyfrifol am unrhyw ran o'r llwyddiant a welodd eu cenhadaeth. Duw oedd ar waith.

O'r cyfan sydd raid atgoffa Cristnogion ohono heddiw, un o'r pethau pwysicaf ydi'r gwirionedd hwn mai Duw yn unig all lwyddo'i waith. Ein tuedd naturiol ydi credu bod y cyfan yn dibynnu arnom ni. Gall hynny wneud i ni ruthro i ymffrostio mewn llwyddiant gan amddifadu Duw o'r diolch a'r clod. Ond gall hefyd wneud i ni lithro i anobaith ac euogrwydd pan nad oes llwyddiant na llewyrch amlwg i'r gwaith. Gallwn ein beio ein hunain am dlodi ysbrydol eglwys a gwlad a chyfnod gan anghofio bod Duw wrth y llyw, a bod ganddo ei fwriad a'i gynllun ar gyfer ei waith ei hun ym mhob oes ac ym mhob man.

Nid bod hyn oll yn esgus dros wneud dim chwaith. Mae angen i Gristnogion dystio a gweithio'n ddyfal dros yr Efengyl. Ie, ar un wedd, ymdrechu fel pe byddai popeth yn dibynnu arnom ni. Ond gwneud hynny gan erfyn ar Dduw i fendithio'r gwaith am ein bod yn gwybod mai ar Dduw y mae'r cyfan yn dibynnu mewn gwirionedd. Ie, erfyn arno i anfon yr Ysbryd Glân o'r newydd i lwyddo'i waith yn ein gwlad.

**JOHN PRITCHARD**




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

CWYR

YDY CLUSTIAU LLAWN CWYR YN EICH DAL YN ÔL?

GWASANAETH TYNNU CWYR AR GAEL YN EIN FFERYLLFA YN LLANBERIS

HOLWCH AM YMWELIADAU CARTREF



Fferyllwyr Llŷn

Fferyllfa I Ellis Jones, Llanberis
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk



Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

Premier

SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

## BETHEL A SEION

**Diolch**
Dymuna Valmai Owen, 2 Bro Helyg ddiolch i bawb a ddanfonodd gyfarchion iddi ar gyrraedd 'oed arbennig' yn ddiweddar. Diolch hefyd i staff Caffi Cymunedol Bethel am eu cymorth gyda'r dathliad.

**Croeso Adref**
Bu rhaid i rai o'n pentrefwyr gael cyfnodau mewn ysbyty yn ddiweddar, ond braf cyhoeddi eu bod gartref bellach ac yn gwella. Meddyliwn yn enwedig am Margaret Druce, Stad Tan-y-Cae, a hefyd ein cofion at ei gŵr Philip draw yng Nghaernarfon.

**Goleuadau**
Bellach mae'r goleuadau trafnidiaeth wedi mynd a'r gwaith o gysylltu'r beipen garthffosiaeth o stad arfaethedig Maes Gwndwn i'r brif beipen wedi ei gwblhau. Eto fe erys yr arwyddion amlwg o rai modurwyr yn gor-yrru trwy'r pentref. Er y goleuadau, a'r arwyddion cyfyngu 20, 30 a 40 mya yn ardal y pentref yr oedd y fan mesur cyflymder yr heddlu yn dal i gymryd ei le yn y pentref. Hefyd gwelwyd heddwas beic modur gyda 'gwn llaw' yn adwy Coed Bolyn yn aml yn mesur cyflymdra rhwng Capel Cysegr ac Erw Bian – arwydd pendant fod yr heddlu yn ymwybodol o'r gor-yrru. Fel y cyfeirwyd gennyf o'r blaen, o'r man dod i mewn i Fethel o Gaernarfon i'r troad am Lanrug mae 10 man ble gall modur ymuno â'r lon fawr. Rheswm da i gadw at y cyfyngiadau dybiwn i.

**Oedfaon Mehefin**
Cysegr: 1/5 Megan Williams, 8/5 Huw Tegid Roberts, 15/5 Gweinidog, 22/5 I'w Drefnu, 29/5 Parch. Gwyndaf Jones.
Bethel : 1/6 Parch. Olaf Davies, 22/6 Huw Tegid Roberts, 29/6 Donald Pritchard.

**Mish-Mash**
Unwaith eto eleni bu y pwyllgor gweithgar yn brysur yn creu rhaglen ddeniadol, amrywiol ar ein cyfer. Diolch iddynt ac edrychwn ymlaen am dywydd ffafriol yn ystod yr wythnos 23ain Mehefin hyd at 28ain Mehefin. Dyma'r rhaglen gyfan. Dewch a mwynhewch.

**Nos Lun:** Cae Top Bethel. Noson o Bêl-droed.
Tîm Mish-mash v Tîm y Sêr C.G. 6.30pm.
Mynediad : Oedolion £2 Plant £1
Lluniaeth Ysgafn / Bar ar gael.
Elw at elusen Megan Lois
**Nos Fawrth:** Disco yn y Neuadd Goffa
5.30 – 6.30pm Cylch – Bl.2 6.30 – 7.30pm Bl. 3 – 6.
Mynediad : £2 Lluniaeth ysgafn / Bar ar gael.
**Nos Fercher**: Noson Rasus
Râs y Plant (o gwmpas y pentref) 6.30pm
Râs Oedolion 5K ( I Gelli Gyffwrdd ac yn öl ) 7pm
Râs y Plant : £3 Râs Oedolion £5 / £7 Cofrestru o 5.30pm
**Nos Iau**: Bingo yn y Neuadd Goffa
**Nos Wener**: Noson gomedi yn y Neuadd
Drysau'n Agor: 7pm. Tocyn: £10.
Adloniant : Hywel Pitts / Gareth yr Orangutang / Fflur Pierce
**Pnawn a nos Sadwrn:** Gig Mish-mash yn y Neuadd
2pm – 4 pm DJ Bustach
O 4pm ymlaen perfformiadau gan: Buddug / Sara Owen ( Y Llais) / Band Llareggub / Rhys Gwynfor

**Dwy Olygfa**
Ar fy hald yn danfon yr Eco i Stad y Rhos oeddwn, o weld un o dasgau mwyaf anodd i fab ei wneud sef 'gwagio' tŷ ei rieni. Tasg yn llawn atgofion yw'r dasg honno a rhai eitemau a chyswllt personol iawn. Minnau yn croesi draw a chynnal sgwrs, ac o fewn dim y cysylltiad beicio yn arwain y sgwrs. Rhyfeddu hefyd sawl blwyddyn roedd y rhieni wedi byw yn y tŷ a magu'r hogiau yno.

Hel y gêr yw tasg Gerallt,
gorchwyl cofio'r hwyl a'r hallt.

Yna ychydig yn ddiweddarach gweld darlun ar y Weplyfr o ddau o hogiau Seion – Euron a Dilwyn Hughes – yn cau drws Pennant, cyn gartref eu rhieni yn Seion am y tro olaf. Cyfeiriwyd fod cysylltiad am bron i gan mlynedd gan y teulu yma yng nghyffiniau Seion. Beth lifai drwy eu meddyliau tybed? ' Yma mae beddrodau'n tadau, Yma mae ein plant yn byw' meddai'r emynydd, ond nid felly bellach.

O'r plwyf a wreiddiodd ni'r plant, deil poen o adael Pennant.

Braf clywed yn ddiweddarach mae unigolion cynhenid Bethel a Seion fydd perchnogion newydd y ddwy annedd. Dymunwn yn dda iddynt.



**Clwb Bro**



Cyfarfu Clwb Bro Bethel yng Nghapel Cysegr prynhawn dydd Mawrth 6ed o Fai o dan lywyddiaeth Mary Wyn Jones.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Falmai Owen sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig.

Pleser oedd cael cwmni Meira Evans o Gaernarfon. Yn enedigol o Lanberis, treuliodd amser yn Ne Cymru cyn dychwelyd i'r Gogledd yn 2005.

Ers ymddeol o'r byd addysg, mae wedi sefydlu busnes Gwlân y Bwthyn yn gwerthu cynnyrch mae wedi ei wnïo, gwau a chrosio.

Cawsom eglurhad ganddi ar sut ddechreuodd wau dan arweiniad ei Mam. Soniodd am ei modryb oedd yn brodio a dangosodd lliain bwrdd o'i gwaith wedi ei frodio yn gywrain.

Ym mlynyddoedd cynnar ei gyrfa, bu'n gwau siwmperi a gwnïo sgertiau ar gyfer gwisgo i'w gwaith.

Bu saib ar y gwaith llaw wrth fagu teulu. Ysgogwyd hi i ail-afael yn y gwaith llaw pan ddaeth yn Nain. Mae wedi datblygu ei sgiliau trwy wylio sianel You Tube.

Daeth a chasgliad o'i gwaith i ni eu gweld - cwilt wedi ei wnïo, blanced wedi ei grosio, anifeiliaid bach a bagiau wedi eu creu drwy ail-gylchu dillad.

Talwyd y diolchiadau gan Llinos Williams. Nora Parry oedd yn gyfrifol am y baned. Enillwyd y raffl gan Falmai Owen.

## CAEATHRO

**Capel**
Fel rhan o ddathliadau 200 mlynedd Capel Caeathro, bydd pregethwr gwadd yn cynnal Oedfa am 2:00pm ar ddydd Sul y 1af o Fehefin. Bydd lluniaeth a sgwrs i ddilyn, gyda chyfle i hel atgofion am yr amseroedd a fu.

Ar ddydd Sul yr 8fed o Fehefin, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Huw Dylan Jones, eto i gychwyn am 2:00pm.

Y trydydd digwyddiad i ddathlu'r dau-gan mlwyddiant fydd "Stori Capel Caeathro - Yr Eglwys a'r Gymuned" – bydd y digwyddiad hwn ar ddydd Sul y 12fed o Hydref, i gychwyn am 6:00pm.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Shân Jones (7 Erw Wen gynt, a bellach Pentyrch, Penygroes), Anna, Cadi a Math yn dilyn marwolaeth gyn-amserol gŵr a Thad arbennig, Geraint Jones (neu "Ger Siops" fel roedd llawer yn ei adnabod). Roedd Geraint yn gyn-brifathro yn Ysgol Gynradd Llanllyfni ac yn chwaraewr pêl-droed brwd, ac yntau wedi bod yn gapten ar Glwb Pêl-Droed Porthmadog. Mae ein cydymdeimlad yr un mor wresog i Evena Hughes (7 Erw Wen), Mam-yng-nghyfraith annwyl Geraint, ac Ann Gash, chwaer-yng-nghyfraith Geraint, a'i theulu. Brwydrodd Geraint yn ddewr ac urddasol ac mae'r golled ar ei ôl yn un enfawr.

**Eisteddfod yr Urdd**
Pob lwc i holl blant a phobl ifanc y pentref a'r cyffiniau fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2025 – mwynhewch y profiad!

# Nodiadau Natur



Dwi wrth fy modd yn gwylio a gwrando ar natur. Fodd bynnag rhaid i mi gyfaddef mod i'n aml yn mopio ar flodau lliwgar, gwrando ar gân yr adar a'u gwylio yn hedfan o gwmpas, creu nythod a magu cywion. Mae llawer o bethau ym myd natur i'w gweld a rhyfeddu atynt nad ydw i na chithau efallai'n sylwi arnynt, a fy ngholled i a chithau ydy hynny.

### Crachen ludw (*Oniscus asellus*)



**Diolch i Harri Williams am y llun yma, (dynnwyd yn y tywyllwch yng nghoed Treborth) a peth o'r gwybodaeth.**

Beth fyddwch chi'n galw'r trychfil bach yma? Mae sawl enw i'w gael - *woodlouse* yn Saesneg a phry lludw, gwrachen ludw, lleuen y coed neu fochyn coed mewn rhai llefydd.

Isopod yw'r grachen ludw sy'n golygu bod ganddo ysgerbwd caled rhanedig y tu allan i'w gorff. Mae ganddo ddau bar o *antennae* neu synwyryddion. Mae'n lliw llwyd ac mae ganddo saith pâr o goesau, o faint tebyg ac yn mesur oddeutu 12 - 16 mm.

Oeddech chi'n gwybod ei fod yn anadlu trwy dagellau yn hytrach nag ysgyfaint? Lleolir y tagellau hyn ar ochr isaf ei gorff mewn strwythurau o'r enw pleopodau.

Cramenogion daearol ydynt (yn perthyn i grancod a chimychiaid). Maent yn greaduriaid y nos ac yn llawer mwy niferus yn y nos yn hytrach nag yng ngolau'r haul. Mae angen i'w tagellau aros yn llaith i weithredu'n iawn. Dyna pam y cânt eu canfod yn aml mewn amgylcheddau llaith, megis o dan foncyffion, creigiau, neu mewn sbwriel dail. Dwi'n aml yn eu gweld pan ydw i'n codi potiau oddi ar lawr y tŷ gwydr neu yn yr ardd. Heb ddigon o leithder, gallant ddadhydradu a mygu'n gyflym.

Peidiwch â'u lladd nhw! Dydyn nhw'n gwneud dim drwg i'ch planhigion. Maent yn bwyta dail a deunyddiau eraill sy'n pydru, felly'n fuddiol i'r garddwyr yn ein plith.

### Buwch Goch Gota (*Coccinella quinquepunctata* - 5 smotyn; *Coccinella septempunctata* 7 smotyn)

*Ladybird* neu *lady bug* yn Saesneg, a hyd y gwn i, buwch gwta/ gota yw'r enw cyffredin arno yn Gymraeg.

Mae yna amrywiaeth eang ohonynt, dros 40 math yng ngwledydd Prydain, er bod 20 o'r rhain yn fach (oddeutu 3 mm) ac yn dywyll, felly fyddai'r rhan fwyaf ohonom ddim yn eu hadnabod fel y fuwch goch gota. Mae rhai efo dau smotyn, deg smotyn a rhai efo mwy o smotiau na hynny. Cewch rhai amryliw (*Harlequin ladybird* - Harmonia axyridis f. axyridis) rhai melyngoch a rhai sydd efo smotiau hufen. Dwi'n mynd i drafod rhai coch ond dydw i ddim wir yn mynd i boeni am faint o smotiau sydd ganddynt.

Gan amlaf mae'r rhai coch yn mesur oddeutu 5 i 8 mm ac mae ganddynt 6 coes a dau bâr o adenydd, un meddal ac un caled. Maent yn ffrind i'r garddwr oherwydd eu bod yn bwyta llyslau (*aphids*), 50 y dydd a hyd at 5,000 yn eu bywyd, sy'n llawer gwell na defnyddio pla laddwr.

Mae'n gaeafgysgu, weithiau mewn grwpiau mawr, yn yr atig neu gytiau neu siediau.

Maent yn goch neu'n lliwgar i bwrpas. Mae'r lliw a'r smotiau'n dweud wrth ysglyfaethwyr am adael llonydd iddyn nhw a'u bod yn blasu'n ofnadwy. Os cawn nhw eu bygwth, byddant yn gollwng hylif, seimllyd sy'n blasu'n afiach o'r cymalau yn eu coesau.

Peidiwch a'u lladd nhw, maent yn fuddiol i'r ardd.

## CWM-Y-GLO






**Dathlu**

Ar ôl pnawn braf heddiw yn dathlu diwrnod VE yn Menter Fachwen yn Cwm mae'n rhaid danfon gair o ddiolch i staff Menter Fachwen am baratoi y wledd a gawsom yno (a *trifle* i Avril!). Cawsom fiwsig a ffilmiau byr o'r ail ryfel byd. Rhywbeth i ddiddori pawb.

Ond, mae'n glir ar adegau fel hyn, pa mor bwysig yw i roi pwysau ar Cyngor Gwynedd (ers saith mlynedd bellach) i achub adeilad yr hen ysgol i'r pentref - nid oes gan drigolion Cwm unman, heblaw ystafell fychan yn adeilad Menter Fachwen, i gyfarfod. Ond rydym yn ddiolchgar dros ben i Menter am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth, yn enwedig i Glwb y Graig, grŵp o ferched o Cwm sy'n cyfarfod yn wythnosol i wneud crefftau, dysgu sgiliau newydd ayyb, ac yn mynd o nerth i nerth.

Mae'n glir bod gofyn am le mwy i bentrefwyr gyfarfod ac i gynnal llawer mwy o weithgaredau neu gyfarfodydd.

Mae pentrefi eraill yr ardal i gyd efo llefydd i gyfarfod a chymdeithasu ond does dim lle addas yn Cwm!

Tybed oes angen erbyn hyn i ryw fath o grŵp i gynyrchioli pobol Cwm-y-Glo ac hefyd i gydweithio efo Menter Fachwen i fwrw 'mlaen efo'r gwaith i achub hen ysgol Cwm-y-Glo? Yn bwysicach mae angen osgoi saith mlynedd arall i fynd heibio ac efallai colli yr ysgol am byth i ddefnydd trigolion y pentref.

**Er cof**

Yn olaf cawsom gyfle hefyd i gofio am y diweddar Gareth Roberts, i ddiolch amdano a'i holl waith yn yr ardal, roedd pawb yn ei adnabod a'i edmygu.

Mi fuasai Gareth wedi bod wrth ei fodd yn ein plith yn mwynhau ac yn rhannu ei holl wybodaeth.

# PENISARWAUN

**Cydymdeimlo**
Trist oedd clywed am farwolaeth Gareth Roberts yn ddiweddar. Buom yn ffodus o gael sawl noson dan arweiniad Gareth yn y pentref yn dysgu am hanes yr ardal, ac mae'n gadael gwaddod mawr ar ei ôl. Anfonwn bob cydymdeimlad at deulu a ffrindiau Gareth.

Cydymdeimlir yn ddwys â Deiniol Evans a'r teulu, 12 Bryn Eglwys, yn eu profedigaeth o golli Mam arbennig yng nghartref Bryn Meddyg, Llanaelhaearn ar 15fed o Ebrill yn 98 mlwydd oed - gynt o Foty, Rhodfa'r Môr, Nefyn. Priod triw, Mam garedig, Mam yng nghyfraith hoff a Nain falch.

**Miri Mai**
Nos Fercher Mai 14eg am 6yh cynhaliwyd 'Miri Mai' gyda stondinau wedi eu trefnu gan y plant a'r rhieni gyda mabolgampau i ddilyn ar gaeau'r Ysgol. Bydd manylion yn y rhifyn nesaf.

**Priodas Pum Mil**
Bydd trawsnewidiad Neuadd Santes Helen yn cael ei ddangos ar raglen Priodas Pum Mil fis Mehefin. Cadwch lygad allan am hysbysebion ar S4C rhag ofn i chi weld wynebau cyfarwydd o'r pentref.




**Eglwys Santes Helen**
**Cyfarfod y Gunulleidfa**
Cynhaliwyd y Cyfarfod wedi'r Gwasanaeth ar Fai 4ydd. Trafodwyd ymhellach y datblygiad arfaethedig gyda yr atgyweiriadau i'r Gangell.

Gyda chynllun 'Eglwys Agored' hysbyswyd i'r Eglwys fod yn agored ar foreau Llun yn ystod Ebrill ac o Fai 5ed bydd y drefn yn parhau ar ddydd Llun a Mercher o 10.00 hyd 4.00.

Rhoddwyd gerbron y posibilrwydd y byddai Gwasanaeth y trydydd Sul yn y mis yn y dyfodol yn cael ei neilltuo i wasanaeth anffurfiol Caffi/Eglwys yn y Neuadd. Bwriedir gwneud cais hefyd am adnodd i bwrcasu 'Caneuon Ffydd' fel y Llyfr Emynau ar gyfer holl wasanaethau yr Eglwys.

Trefnir noswaith maes o law i goffau y diweddar Gareth Roberts. Eisoes mae arddangosfa i'w gweld o atgofion mewn ffotograffau yn y Neuadd.

**Gwasanaethau mis Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin 1af | 11.00 y.b. | Cymun Bendigaid |
| Mehefin 8fed | | |
| Dydd y Pentecost | 11.00 y.b. | Cymun Bendigaid |
| Mehefin 15fed | | |
| Sul y Drindod | 11.00 y.b. | Boreol Weddi |
| Mehefin 22ain | 11.00 y.b. | Boreol Weddi |
| Mehefin 29ain | 11.00y.b | Cymun Bendigaid |

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r Gwasanaethau gyda phaned a chymdeithasu yn dilyn pob Gwasanaeth yn Neuadd yr Eglwys.

**Eisteddfod Bentref 2025**
Cynhelir Eisteddfod Bentref Penisarwaun 2025 ar nos Fercher, 16eg o Orffennaf am 6yh. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn brysur yn dewis testunau a bydd y rhain ar gael diwedd Mai. Byddwn yn eu rhannu ar safle Facebook y pentref, neu cysylltwch â Caryl am gopi.

Fel yr arfer, mae'r cystadlaethau oedran Uwchradd ac Agored/Dros 18oed ar agor i bawb o bobman. Dewch yn llu i gystadlu!

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Ynyr Parri ar raddio o Brifysgol Wrecsam gyda Gradd Dosbarth Cyntaf BSc gydag anrhydedd mewn Rheolaeth Adeiladu.

Derbyniodd Ynyr hefyd Tystysgrif Rhagoriaeth 2024 gan y CIOB (Chartered Institute of Building) am y mwyaf o farciau ar y cwrs. Llongyfarchiadau mawr i ti ar dy lwyddiant.

**Llysgennad Sioe Môn**
Yn ddiweddar cafodd Elliw Griffith, Tros y Waen, ei dewis i fod yn Llysgennad Cymdeithas Sioe Môn ar gyfer 2025. Dywedwyd bod Elliw yn "lais ifanc ac ysbrydoledig i ddyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Yn llawn egni ac awydd i gynrychioli'r genhedlaeth nesaf'. Pob hwyl i ti yn dy gyfnod fel Llysgennad y Gymdeithas.



**Rygbi**
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r Môr Ladron ar ddod yn ail yn Ffeinal Plant Dan 12oed yn erbyn Rebels draw ym Mharc Eirias ddechrau Mai.

Mi fydd Myfi Hughes, Winllan, yn cael y fraint o groesawu Tîm Rygbi Merched Caernarfon yn eu ffeinal hwy yn erbyn Bala ym Mharc Eirias ganol y mis. Pob hwyl Myfi, a mwynha'r profiad!






## Ysgol Penisarwaun

**Gweithdy Drama Ragarug**
Unwaith eto eleni cafwyd gweithdai drama gan Mari o gwmni Ragarug. Diolch i Mari am ei gwaith. Pawb wedi mwynhau ymarfer sgiliau llafar a chreadigol mewn gweithdai symbylus a diddorol a llawn hwyl.

**Dymuniadau gorau**
Hoffwn ddymuno pob llwyddiant i Myfi ar yr unawd offerynnol - gitâr yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Dur a Môr yr Urdd.

# ‘Mamws’

Teulu eitha cyfarwydd oedd yn byw yn y Waunfawr ganol y ganrif ddiwethaf oedd rhai â’i hadwaenid yn lleol fel ‘Teulu Mamws.’ Llys-enw anghyfarwydd a dweud y lleiaf, ond pam ‘Mamws?’ Yn ôl y sôn, roedd gŵr a gwraig, Mr a Mrs Griffiths wedi dod i’r Weun o gymoedd y De ac wedi ymgartrefu mewn bwthyn yn ardal Croesywaun. Hynny mae’n debyg rhywdro yn ystod y 1930au. Roedd ganddynt nifer o blant ac yn eu plith baban bychan ychydig wythnosau oed. Er mwyn i’r fam gael ambell saib o fagu’r babi, byddai merch ifanc oddeutu deunaw oed yn galw heibio’r bwthyn i fynd a’r babi am dro yn y goets. Byddai tad y babi hefyd ar brydiau yn cerdded yn gwmni i’r ferch.

Un bore braf oedd hi â’r ferch ifanc yng nghwmni’r tad yn powlio’r goets ar y pafin pan ddaeth un o ferched y pentref tua’g atynt, ac o weld y babi yn y goets, meddai hithau,“Wel,am fabi bach del sydd gynno chi, yn ddigon o ryfeddod wir! Chitha’n fam fach ifanc mor falch ohonno fo dwi’n siwr.” A meddai’r tad yn ei acen ddeheuol gref , “Nage! Nage! nid hi i’w ei famws’e, mae ei famws gartre yn y tî!” Mae’n debyg i’r ddynes grybwyll yr enw ‘Mamws’ wrth rai o bobl y pentref, ac o hynny ymlaen fel ‘Teulu Mamws’ y cyfeiriwyd atynt gan bawb. .

Yn ystod y 1950au a’r 60au y cofiaf amdanynt. Roedd Sally, ‘Sali Mamws’ y ferch hynaf wedi priodi dyn o’r enw Ken Blair, a’r ddau wedi ymgartrefu yn rhif 1 Rhesdai Ael-y-Bryn. Gwyddel o Felfast oedd Ken Blair, neu ‘Blêr bach’ fel byddai pawb yn ei adnabod a dros amser ganwyd iddynt chwech o blant, Trevor, Kenneth, Jane, Ann, David a William.

Rhywbeth digon cyfarwydd fyddai gweld ‘Blêr bach’ yn brasgamu dod ar y lôn â wdbein yn ei geg. Roedd ‘Blêr bach’ yn dipyn o bel-droediwr ac yn un o sêr tîm pêl-droed y Weun fyddai’n chwarae yn y Caernarvon & District League ddiwedd y 1940au. Roedd gan Blêr bach lygaid croes a phan fyddai’r Weun yn cael penalti, ef fyddai’n cymryd y gic bob amser. Yntau yn twyllo’r golwr drwy edrych i un gornel o’r gôl cyn taro’r bêl i’r ochr arall.

Roedd Trevor y plentyn hynaf, (‘Padi Bach’ i’r plant) yn fachgen eithriadol o fychan, a chanddo lais eithriadol o fain. Hanner Saesneg a hanner Cymraeg fyddai Trevor yn siarad, “Fi wedi cael *new bike* sdi, un thri spid lliw *blue*!” pethau fel yna. Cofiaf Trevor yn dod i’r ysgol am y tro cyntaf, ac yntau yn nosbarth y babanod yn cicio a strancio eisiau mynd adre. Roedd Miss Jones yr athrawes, (‘Miss Jôs binsh’) wedi trio popeth i’w dawelu ond wedi methu’n glir a chael trefn arno. Roeddwn innau bryd hynny yn nosbarth Miss Edwards, *‘Standard two,’* oedd gyfochrog â’r dosbarth y babanod, a’r hyn roeddwn yn ei glywed drwy’r pared oedd llais main Trevor yn sgrechian,“*I want* Giwim Mois! *I want* Giwim Mois!” (Gwilym Morris’.) Minnau’n gorfod gadael y wers a mynd i ddosbarth y babanod i’w gysuro a chadw cwmni iddo.

Mae sawl un wedi gofyn i mi sut cefais yr enw Mois. ‘Padi bach’ â’i lais main yn sgrechian, Giwim Mois! sy’n gyfrifol am hynny!

Lle poblogaidd gan hogia’r Weun fynd i chwarae pêl-droed oedd Gerddi Bach, (‘Y Dymp.’) Am y clawdd â’r Gerddi Bach roedd garej Gwilym Lloyd Jones, dosbarthwr glo yn yr ardal. Un fyddai’n dreifio’r lori i Gwil Lloyd oedd Dennis Griffiths, (‘Dennis Mamws’) a chyn gynted y byddai Dennis yn cyrraedd yr iard yn y lori, byddai Trevor yn anghofio popeth am y gêm a rhedeg i’w gyfeiriad gan waeddi’n wichlyd, “YNCL DEN! YNCL DEN!” â’i ewythr yn mynd i’w boced a rhoi pishyn chwecheiniog yn ei law, a Trevor yn rhedeg nerth ei draed i’r siop i brynu lolipop.

Fel y crybwyllais, roedd Trevor Blair yn fachgen eithriadol o fychan, a ninnau hogia’r Weun yn ei brofocio a dweud y buasai’n gwneud joci ardderchog. Ymhen blwyddyn daeth Trevor ataf ac yn ei lais gwichlyd main meddai, “Ti yn cofio hogia yn deud i fi mynd yn joci? Wel fi mynd i Newmarket i fod yn Joci go iawn sdi. Fi wedi cael llythyr yn deud fi mynd yn prentis i *stable trainer* Harvey Leader.” Roedd Harvey Leader yn ystod y 1960-70 au yn un o’r hyfforddwyr ceffylau mwyaf adnabyddus yn y wlad, a chanddo nifer o geffylau rasio gwerth miliynau yn ei stablau.

Cofiaf y bore hwnnw a minnau’n dymuno lwc dda i Trevor cyn iddo adael i ddal y trên, ac yntau’n dweud, “*Listen*! fi ffonio ti soon hefo plenti *tips winners,ok*!” Mi gadwodd Trevor at ei air, ac ymhen ychydig fisoedd daeth galwad ffôn o Newmarket â nhad yn ateb, â’r llais main ar ben arall y lein yn dweud. “Helo, fi Trevor yma.”

“Pwy ddeudsoch chi?”

“Trevor! hei, ti dim yn cofio fi?, Padi bach Blair! ti yn cofio fi rŵan? Listen, fi’n reidio ceffyl enw *‘Celestial Sun’* yn *York races* dydd Mercher, *so put a few bob* arno fo, cos mae o yn mynd i curo!”

Er nad oedd fy nhad yn un am gamblo, mi fentrodd roi dwy bunt ar y ceffyl i ennill cyn setlo lawr i wylio’r ras ar y teledu. Trevor Blair, y ‘Mamws’ bach o’r Weun yn reidio *‘Celestial Sun’* groesodd y llinell derfyn yn gyntaf y pnawn hwnnw, a hynny ar bris o 8/1, â nhad yn elwa o £16.

Ymhen amser, ymfudodd gweddill y ‘Mamwsiaid’ o’r Weun i ymuno â Trevor yn Newmarket. Cofiaf ‘Blêr bach’ yn dod i siop fy nhad i ffarwelio ac ysgwyd llaw, ac yn addo y byddai’n, “*sending you a few tips*!”

Cwta ddeufis yn ddiweddarach, daeth llythyr drwy’r Post â stamp Newmarket ar yr amlen.

*Dear John*, (nhad).

*Bet ‘Never Red’ in the 2.30 at Yarmouth on Saturday with our Trevor on board.*

*Kind regards,*

Ken Blair.

Do, mi enillodd hwn hefyd a hynny ar bris o 9/2, â nhad yn ennill mwy o bres yn ei sgîl “R’hen Flêr bach’ â’i dip!”chwedl yntau.

Ceffyl arall yn y stabl bryd hynny oedd *‘Small’*. Enw addas efallai o gofio fod Trevor ei hunan yn greadur mor fychan. Bu Trevor yn llwyddianus yn reidio hwn hefyd, a hynny drwy ennill râs yn Catterick. Roedd gan Trevor feddwl y byd o *‘Small,’* “Mae o yn ceffyl ffeind sdi, fo a fi yn best of mêts aye!” yn ei edmygedd ohono. Llwyddiant arall iddo oedd ennill ras fawr yn Newmarket ar geffyl o’r enw, *‘No Mercy,’* un o geffylau gorau’r stabl.

Meddai yntau dros y ffôn, “Ceffyl ffast, hwn sdi, mae o mynd fel y blydi *clappers aye*, a *hell of job* dal fo yn ôl!” Yn ogystal â’r rhai hyn bu hefyd yn ail a thrydydd mewn nifer o rasys erill, ar draciau fel, Ayr, Redcar a Wolverhampton.

Dros amser aeth Trevor yn rhy drwm i barhau fel joci, ond er hynny, arhosodd ym myd y ceffylau rasio gan weithio fel *‘stable boy’* yn edrych ar ôl rhai o geffylau’r miliynyddion cyfoethog yn y stablau.

Cofiaf un pnawn o glywed cnoc ar y drws ffrynt, a phwy oedd yno yn wên o glust i glust ond y joci bach ei hyn, ie, Trevor ‘Padi Bach’ Bair â’i frawd Kenneth. Y ddau wedi dod i’r Weun am ychydig ddyddiau. Mi wasgodd y joci bach fy llaw nes on’i yn neidio!

“Helo old mêt! *long time no see aye*, listen, ti ffansi dod am peint?”meddai wrth fy nghyfarch ar y rhiniog, ac ymhen dim, roedd y tri ohonom ar y bws Whiteway lawr i’r dre. Roedd Trevor yn smociwr trwm, “Puffer Blair ma’r jocis i gyd yn galw fi sdi!” meddai wrth dynnu ar ei sigaret *Benson & Hedges*. Roedd y sgwrs dros beint y pnawn hwnnw yn hel atgofion am yr hen amser yn donic. “Cofio fi yn crasho beic fi against *telegraph pole* a cael *big* lymp ar talcen fi?” oedd un atgof ganddo cyn  ychwanegu, “Cofio ni dwyn *apples* a *pears* o *garden* Miss Vison, a Tomys y pylismyn yn rhoi *hell* o *telling off* i ni!” Atgof arall oedd un am chware pêl-droed yn yr ardd.“Cofio ni yn cael *kick about* yn *garden* ni, â’r pêl yn mynd trwy ffenest *kitchen* Mrs Peters a hi yn dod allan ar ôl ni, ”Good laff *aye mate*!”

Wedi i Trevor ddychwelyd i Newmarket, ychydig a wyddwn ar y pryd mai dyna’r tro diwethaf i mi fod yn ei gwmni. Er iddo gysylltu ychydig o weithiau ar y ffôn, ni chlywais ddim oddi wrtho wedyn. Tybed beth ddaeth o’r joci bach ‘Mamws’ o’r Weun? Ydio yn fyw ac iach ac yn dal ym myd y ceffylau rasio â’i peidio? Hoffwn wybod.

Mois.





**Gweithdy Podlediad**

Yn ddiweddar bu disgyblion yr Adran Iau yn brysur yn cynllunio a chreu podlediadau. Cafwyd gweithdy diddorol gyda Marc Griffiths o gwmni Stiwdio Box. Roedd pawb wedi mwynhau’r profiad yn arw a bydd y podlediadau ar gael ar amrywiol blatfformau megis  Spotify, Amazon ac Apple yn fuan.

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD18FED MAWRTH, 2025

1. **Estynnwyd croeso** cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchwyd am bresenoldeb yr aelodau.

2. **Derbyniwyd y cofnodion** fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3.   Derbyn cyflwyniad gan Dr. Jenny Wong o Wild Resources ar gynlluniau i ymwneud â choed aethnen (aspen) sydd wrth barc sglefrio Cwm-y-Glo.

Cafwyd cyflwyniad gan Dr. Jenny Wong parthed coed aethnen sydd wedi eu lleoli ar dir y Cyngor yn y Parc Sglefrio. Eglurodd fod y goeden o fath arbennig a'r bwriad oedd ei defnyddio i gynhyrchu mwy o goed. Defnyddiwyd sleidiau gan Dr. Wong i egluro'r broses.

**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth, gyda diolch i Dr. Wong am egluro'r broses i'r Cyngor.

4. **Derbyn adroddiad ar y cyd** oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones, sef aelodau dros Llanrug A Chwm-y-Glo ar Gyngor Gwynedd. (Copiau i'w cael gan y Clerc)

**5. Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Y Fynwent**

Rhai o'r pynciau a drafodwyd:

- Blaenoriaethau blynyddol 2024/25. Amserlen adeiladu'r wal a chwblhau uwchraddio cyflwr cofebion categori un yn symud ymlaen fel y disgwyl.
- Gwaith adnewyddu stecs cofebion(categori 2) yn dechrau mis Mawrth.
- Rheolau'r Fynwent wedi eu haddasu.
- Teulu wedi cysylltu i'n hysbysu eu bod am osod fainc newydd yn lle'r fainc hen a osodwyd ganddynt yn flaenorol.
- Cais i'r Cyngor i sicrhau torri gwair cyn Sul y Mamau(30-3-25) wedi ei dderbyn a'i awdurdodi.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**6. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.**

Rhai o'r pynciau a drafodwyd:

- Cynghorwyr Rhys Parry ac Ann Lawton yn adolygu cynnwys gwefan y Cyngor.
- Adolygu ac addasu'r gofrestr asedau e.e. angen ychwanegu bwrdd picnic Pwll Moelyn.
- Adolygu polisi risg ariannol y cyngor- a bob taliad i'r Cyngor drwy drosglwyddiad banc.
- Sicrhau fod asesiad risg yn y fynwent yn cael ei gario allan yn flynyddol.
- Un Llais Cymru. Penderfynu peidio ymaelodi y flwyddyn yma ac ail ystyried eto'r flwyddyn nesaf.
- Newyddlen: gweithio tuag at ei chyhoeddi ddiwedd mis Ebrill 2025.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**7. Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau.**

Rhai o'r materion a drafodwyd:

- Casglu sbwriel: mae tipyn o sbwriel wedi hel o gwmpas yr ardal, felly penderfynwyd rhoi cynnig arall ar ddenu gwirfoddolwyr drwy dudalen Facebook y Cyngor gan bwysleisio bod offer ar gael i wneud y gwaith. Cynnwys y wybodaeth yn y Newyddlen hefyd.
- Hyfforddiant diffibriliwr. YClerc i holi parafeddyg o Lanrug am ei help.
- Angen trefnu dyddiadau i grwydro'r llwybrau cyhoeddus i archwilio eu cyflwr.
- Rheolau'r caeau chwarae- gobeithir y byddant wedi eu hargraffu a'u gosod erbyn mis Ebrill.
- Asesiadau risg coed- y clerc i drefnu bod y gwaith yn cael ei wneud.
- Angen archebu blwch halen melyn ar gyfer Rhes Bryn, Cwm y Glo.
- Gobeithio cael cyfarfod â›r sawl sy'n delio â datblygiadau Ysgol Cwm-y-Glo yng Nghyngor Gwynedd i adrodd ar y newyddion diweddaraf.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**8. Ystyried ceisiadau am grantiau:**

a) Seindorf Llanrug.  b) Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig.

**Penderfynwyd:**

Cyfrannu £750 tuag at Seindorf Llanrug.

Gohirio penderfyniad ar Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig oherwydd fod un ffurflen angen ei chyflwyno.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## COFNODION CYFARFOD 1AF EBRILL 2025

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd  fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

**Materion o'r Cofnodion**

**Capel Ebeneser, Deiniolen**

Nododd y clerc fod y cwmni Socotec wedi cysylltu â'r perchnogion i ddatgan ein pryderon. Bydd rhaid i ni roi amser rŵan, a gweld os bydd rhywfaint o dacluso yn digwydd ar y safle.

**Lôn Gefn rhwng Saron a Bethel**

Mae Sasha am drafod hyn gyda'r Adran Priffyrdd.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**

**Cais Am Grant mynychu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd -** Derbyniwyd cais gan Ysgol Gwaun Gynfi, yn dilyn eu llwyddiant yn cyrraedd y Genedlaethol ar gystadleuaeth Cyflwyniad Dramatic. Byddwn yn disgwyl tan y cyfarfod ym mis Mai i roi cyfle i unrhyw beth arall sydd wedi bod yn llwyddiannus i gyflwyno cais.

**Cynllunio**

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

***C25/0180/18/DT - 80 Pentre Helen, Deiniolen***

*Cais i osod pwmp gwres Riellio yng nghefn yr eiddo - Dim Gwrthwynebiad*

***C25/0143/18/LL - School House, Deiniolen***

*Newid defnydd hostel i lety gwyliau tymor byr - Dim Gwrthwynebiad*

***C24/0083/18/LL - Cartref Nyrsio Penisa'r-waun***

*Apêl i lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn gwrthod y cais gan Gyngor Gwynedd*

**Adroddiad Blynyddol**

Wedi ychydig addasiad Derbyniwyd yr Adroddiad yn gywir a nodwyd  fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

**Cyfrifon**

Cyflwynwyd Mantolen Ariannol diwedd blwyddyn, ynghyd a'r holl wybodaeth o dderbyniadau a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31. Roedd pawb wedi cael yr adroddiadau cyn y cyfarfod i edrych dros y wybodaeth. Bu ychydig o drafodaeth wrth symud ymlaen i'r flwyddyn ariannol Newydd. Derbyniwyd y cyfrifon a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith, a rhoddwyd caniatâd i'r clerc baratoi'r ffurflen flynyddol, a gyrru manylion i'r archwilwyr mewnol.

**O Gwmpas y Bwrdd**

**Lloches Bws i Rhiwlas -** Yn dilyn derbyn lloches bws, rydym nawr yn y broses o ddisgwyl am amcan bris i'w osod gan Cybi cyf. Gobeithio byddwn yn cael ei gosod yn o fuan yn dilyn derbyn a chytuno ar bris.

**Lloches Bws Gwaelod Bethel -** Yn dilyn difrod oherwydd y tywydd, rydym yn disgwyl i'r lloches cael ei atgyweirio. Yn y cyfamser bydd rhaid ei gwneud yn ddiogel.




## Y Gornel Ddarllen


Mae 'na nifer o nofelau Cymraeg newydd wedi ymddangos dros y misoedd diwethaf, felly digon o ddewis os 'da chi'n chwilio am nofel at eich dant....ac mae 5 ohonynt yn ein 10 uchaf...

Cafwyd digwyddiad yn y siop gyda Julian Borger 'nôl ym mis Mawrth, ond mae'r llyfr, sydd am fachgen Iddewig 11 oed a gafodd loches ac addysg yng Nghaernarfon, yn dal i ennyn diddordeb.

Roedd yn braf croesawu Ursula Martin, awdur 'One Woman Walks Wales' a 'One Woman Walks Europe', i'r siop wrth iddi ddechrau taith gerdded epig arall o ben pellaf Cernyw i ogledd eithaf yr Alban...

Mi fydd rhai o awduron 'O Ffrwyth y Gangen Hon' yn darllen eu cerddi yn yr ardd ar 17eg o Fai. ... a 'dan ni wrthi'n brysur nawr yn paratoi ar gyfer Gŵyl Arall, fydd yn cael ei gynnal yn y dre rhwng y 10fed a'r 13eg Gorffennaf .... lle bydd nifer o awduron yn trafod eu llyfrau, a myrdd o ddigwyddiadau eraill i'ch diddanu drwy'r penwythnos.








**Rhestr 10 Uchaf Palas Print**

1. Wythnos Ryfedd Gwilym Puw, Neil Rosser
2. Dau, Bethan Nantcyll
3. I Seek a Kind Person, Julian Borger
4. Dal dy Dir, Siân Bod
5. Brwydr yr Iaith 1962 - 67, Geraint Jones
6. Tempo, Rhianedd Jewell
7. Tir, Carwyn Graves
8. O Ffrwyth y Gangen Hon, gol. Nia Morais
9. One Woman Walks Europe, Ursula Martin.
10. Nelan a Bo, Angharad Price

***Eirian James***

# Holi Hwn a Holi Hon



**1. Enw a ble ydach chi'n byw?**
Lowri Hughes. Parc, Dinorwig.

**2. O ble ydach chi'n dod yn wreiddiol?**
Abergele.

**3. Hoff le yn y fro, a pham?**
Chwarel Dinorwig. Ma' Branwen y spaniel a finna wrth ein boddau'n brasgamu ar hyd y llwybrau. Golygfeydd godidog, ymarfer corff ardderchog a chael dychmygu sgwrs yr hen chwarelwyr wrth i mi grwydro. A'r geifr wrth gwrs, 'dwi wrth fy modd efo rheiny, er eu bod nhw'n drewi!

**4. Eich hoff air Cymraeg?**
Porfa.

**5. Be sy'n eich cadw'n brysur?**
Teulu, gwaith a gwirfoddoli yn Ysgol Gwaun Gynfi. 'Dwi hefyd yn gadeirydd Caban Cynfi, canolfan gymunedol newydd sbon sydd ar fin agor ar safle'r ysgol.

**6. Be sy'n eich gwylltio?**
Donald Trump.

**7. Be sy'n eich gwneud yn hapus?**

Ma'r olygfa o'r ty yn parhau i'm syfrdanu, a 'dwi'n siwr y bydd hynny'n wir tra byddwn ni yno. Mae cael rhannu'r olygfa honno gyda theulu a ffrindiau ar ddiwrnod braf yn llonni fy nghalon. Bwyd da, cwmni difyr, machlud tanbaid – perffaith.

**8. Oes gennych chi uchelgais i'r dyfodol, i chi eich hun neu i'r fro?**
Creu cegin yn yr ardd. 'Dwi wrth fy modd yn coginio ac mi hoffwn allu paratoi pryd blasus a mwynhau yr olygfa wych yr un pryd.

Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898



AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*



# LLANRUG

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i hynafwraig Llanrug. Mae Mrs Megan Hughes, Daron wedi dathlu ei phenblwydd yn 100 oed ar Ebrill 22ain. Gobeithio'n wir ei bod wedi mwynhau'r achlysur arbennig hwn gyda'i theulu a ffrindiau pan ddaethant at ei gilydd i wledda ym Melin Seiont.

Rydym hefyd yn anfon ein dymuniadau gorau a chofion cynnes i Iolo Eilian, mab Eryl a'r diweddar Islwyn Roberts, Glanffynnon ar ddathlu ei benblwydd yn 50 yn ddiweddar. Gobeithio i ti fwynhau'r dathliadau arbennig yn Galway gyda theulu a ffrindiau.

**Gair o ddiolch**
Dymuna Megan Hughes, Daron, ddiolch o galon i drigolion yr ardal am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 100 oed yn ddiweddar. Cafwyd dathliad hyfryd yn Y Felin, Pontrug. Diolch i berchnogion a staff y bwyty am y bwyd ardderchog a'r croeso cynnes.

**Gwellhad buan**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Shân, Bryniau Fawnog a gafodd ddamwain ddrwg tra'n cerdded efo Steve ei gŵr. Fe dorrodd ei choes mewn tri lle ac mae wedi bod mewn plaster am rai wythnosau. Ond mae hi bellach wedi cael esgid fawr fel ei bod yn gallu symud yn rhwyddach. Dymuniadau gorau Shân.

**Cofiwch am noson arbennig yn Y Penbont fis Mehefin**
Mi fydd hi'n dipyn o noson yn y Penbont i godi arian ar gyfer Ysgol Gynradd y pentref nos Sadwrn, Mehefin y 7fed. Cyfle i glywed Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas yn perfformio, yn ogystal â'r band ifanc o Gaerdydd, Dadleoli. Mynediad yn £15, a rhaid archebu tocyn o flaen llaw gan mai nifer cyfyngedig yn unig sydd ar gael. Cysylltwch efo Donna i archebu eich tocyn (07789 738 649). Bydd y cyfan yn dechrau am 7.30pm.

**Profedigaeth**
Rydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf i deulu Michael Eirwyn Williams, Llwyn Coed, Cwm Y Glo a hunodd yn dawel ar y 18fed o Ebrill yn 85 mlwydd oed. Tad annwyl i Nerys, Dafydd a'r diweddar Michael John, a Thaid annwyl i Leigh, Cathy, Owain, Iolo a Lleu. Colled enfawr i'w deulu a'i ffrindiau oll.

**Capel y Rhos - Oedfaon mis Mehefin**
Mehefin 1af - Y gweinidog Y Parch. Nerys Anne Griffiths
Mehefin 8fed - Parch. Cledwyn Williams
Mehefin 15fed - Mrs Megan Lloyd Williams
Mehefin 22ain - Y gweinidog Y Parch. Nerys Anne Griffiths
Mehefin 29ain - Parch. Dr. Alun Morton Thomas





Enillwyr yr Helfa Wyau: **Elain, Andrea, Cynthia, Bethan, Sharon a Gwyneth**.

**Hafan Elan**
Roedd Beverley y warden wedi cuddio nifer o wyau Pasg o gwmpas Hafan Elan a rhai o'r tai hefyd. Daeth pedwar o weithwyr Adra yno, a bu Sophie, Gareth, Geraint a Siôn yn rhuthro o gwmpas yn chwilio am yr wyau! Roedd y byrddau wedi eu haddurno yn hyfryd mewn glas, melyn, pinc a phiws. Sophie ddaeth a'r ŵy aur i mewn, a hi oedd yn arwain y tîm piws. Cawsant ŵy Pasg siocled bob un yn wobr.

Cawsom bryd blasus o sgodyn a sglodion a chacen i ddilyn. Unwaith eto, mae'n diolch yn fawr iawn i Beverley am baratoi diwrnod llawn o hwyl. Mae hi bob amser yn paratoi rhyw weithgaredd a bwyd i ni, ac rydym yn gwerthfawrogi ei chyfraniad yn fawr.

Cofiwch fod Haf Thomas Tre Ceiri yn dal i gasglu stampiau ar gyfer Cymdeithas y Deillion. Mi fyddai yn hynod falch o'u derbyn gennych.

**Merched Y Wawr**
Croesawodd Bethanne Williams yr aelodau i Gyfarfod Blynyddol y gangen ar y 6ed o Fai.

Anfonwyd ein cofion a'n cydymdeimlad at deulu Deiniol a Heulwen Evans yn dilyn eu profedigaeth o golli mam Deiniol yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd Megan Hughes, mam Gwenda, sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed.

Bydd dwy o aelodau'r gangen yn dathlu pen blwydd arbennig y mis hwn. Dymuniadau gorau i Meirwen a Rhiannon, a phob hwyl ar y dathlu.

Cafwyd crynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2024 - 2025. Rhaid dweud i'r rhaglen fod yn un hynod o ddiddorol ac amrywiol. Yr uchafbwynt, heb os, oedd y cinio i ddathlu pum deg mlynedd ers sefydlu'r gangen. Noson i'w chofio yn wir.

Rhaid diolch i'r swyddogion am eu hymroddiad i'r gangen. Bethanne oedd y Llywydd eleni, fel y llynedd, a bu'n Ysgrifennydd y flwyddyn cyn hynny. Meirwen oedd yr Ysgrifennydd. Mae hi wedi gwneud y gwaith am dair blynedd, a hi fydd Llywydd Arfon ym mis Medi. Pat sydd wedi bod yn Drysorydd y gangen ers blynyddoedd Bellach, a bydd yn parhau i wneud y gwaith y flwyddyn nesaf. Bydd Avril yn parhau i fod yn Is-Drysorydd. Diolch iddynt am eu gwaith caled.

Dewiswyd swyddogion ar gyfer y flwyddyn 2025 - 2026. Bydd Phyllis Ellis yn parhau i fod yn Llywydd Anrhydeddus. Mair Hughes fydd y Llywydd a Nan Humphreys yn Is-Lywydd. Bydd Anwen Owen yn Is-Ysgrifennydd a Carys Wynne a Gwenda Roberts yn rhannu swydd Is-Ysgrifennydd.

Gwibdaith i Aberystwyth sydd wedi ei threfnu ar gyfer mis Mehefin. Cysyllter â Meirwen am fwy o wybodaeth. Bydd Bethanne wedi cael triniaeth ar ei llygaid cyn hynny ac wedi gwella'n dda gobeithio.

Mae pwyllgor Celf a Chrefft Arfon wedi trefnu noson yng nghwmni Cefyn Buyers yn Neuadd Bethel ar y 6ed o Fehefin. £5 yn unig yw'r tâl mynediad a gallwch dalu wrth y drws.

Mae taith gerdded wedi ei threfnu yn Y Fron ar gyfer aelodau Arfon ar yr 2il o Orffennaf. Bydd paned ar gael ar ddiwedd y daith. Manylion pellach gan Meirwen.

# CHWILAIR MIS MEHEFIN - RHAGLENNI TELEDU CYMRAEG

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | E | F | H | C | M | O | N | M | I | D | Ff | Î | L | D |
| D | U | C | O | I | G | S | N | E | B | W | C | T | Ff | I |
| Y | C | Y | W | B | U | Y | I | A | S | G | O | R | I | O |
| N | X | S | B | O | W | D | F | Ch | M | G | L | Y | A | R |
| L | W | G | T | B | R | H | E | N | O | A | B | Ch | E | B |
| B | E | U | L | U | Ff | L | N | A | S | R | P | E | S | Ll |
| A | M | O | U | R | A | M | Y | N | Y | Dd | A | R | L | Th |
| R | L | G | N | Dd | E | P | C | E | S | I | E | P | B | W |
| I | D | W | R | O | W | N | D | A | R | O | W | N | D | S |
| A | O | M | C | E | F | N | G | W | L | A | D | Y | T | Y |
| U | W | P | W | R | C | P | Ng | U | E | M | P | E | R | Dd |
| T | Y | A | R | T | S | A | R | T | G | W | F | Î | N | A |
| E | R | S | M | I | O | S | D | A | L | Y | M | E | Ll | T |
| Î | F | L | A | S | T | W | N | S | H | I | B | R | A | D |
| A | P | R | I | O | D | A | S | P | U | M | M | I | L | Y |

Beth ydy'ch hoff rhaglen teledu chi? Fyddwch chi'n gwylio rhaglenni ar y teledu neu'n eu ffrydio? Fyddwch chi'n gwylio cyfres gyfan ar un eisteddiad i gael gwybod beth sy'n digwydd yn syth? Ydach chi'n gwylio rhaglenni ar y teledu, ar eich tabled, gliniadur, cyfrifiadur neu'ch ffôn? Mae arferion gwylio wedi newid wrth i'r dechnoleg newid a bellach does dim rhaid gwylio ar amser penodol na 'recordio' er mwyn ei wylio wedyn. Rhyfedd o fyd.

Mae Rownd a Rownd yn rhaglen hynod boblogaidd Gweler **tud. 17** am hanes rywun sy'n gweithio ar y rhaglen yma yn Holi Hwn a Holi Hon.

Gallwch hefyd gael mwy o hanes gardd leol fu ar Garddio a Mwy yn ddiweddar ar **tud. 22**.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

**AMOUR A MYNYDD**
**BARIAU**
**CEFN GWLAD**
**C'MON MIDFFÎLD**
**CYNEFIN**
**CYSGU O GWMPAS**
**CYW**
**DAL Y MELLT**
**GARDDIO A MWY**
**HENO**
**PRIODAS PUM MIL**
**ROWND A ROWND**
**SGORIO**
**STWNSH**
**Y FETS**

# CHWILAIR MIS MAI - TAI BYDDIGIONS

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | D | R | Ll | G | Y | P | I | E | Ch | R | S | E | R | G |
| P | Ch | Y | A | I | N | L | D | Rh | D | L | T | C | E | L |
| L | C | D | N | E | D | A | Y | M | O | E | R | A | N | A |
| A | A | Ll | E | U | E | S | Ng | A | P | G | E | S | D | N |
| S | S | M | R | D | A | B | N | S | L | R | S | T | I | Ll |
| Y | T | Y | Ch | R | Th | R | Ll | T | A | E | G | E | P | Y |
| N | E | U | A | Dd | B | O | D | Y | S | G | A | Ll | E | N |
| Rh | Ll | N | E | C | R | N | E | A | N | Y | W | C | W | R |
| I | P | Y | R | T | Y | D | T | D | E | N | E | O | A | S |
| W | E | Dd | O | B | N | A | S | P | W | O | N | Ch | C | T |
| E | N | G | N | O | B | N | A | Ll | Y | G | C | O | V | N |
| Ll | Rh | S | D | B | R | W | E | R | Dd | I | G | U | Ll | M |
| I | Y | U | I | P | A | R | C | D | I | N | E | F | W | R |
| W | N | P | L | A | S | T | A | N | Y | B | W | L | Ch | Ll |
| A | B | E | C | A | S | T | E | Ll | G | W | Y | D | I | R |

**Plas Newydd** oedd y lleoliad sy'n bodoli yn Llanfairpwll ac yn Llangollen. Gawsoch chi hyd i'r lleoliad yn y chwilair?

**BRYN BRAS**
**CASTELL COCH**
**CASTELL GWYDIR**
**CASTELL PENRHYN**
**ERDDIG**
**GLANLLYN**
**GREGYNOG**
**LLANERCHAERON**
**NEUADD BODYSGALLEN**
**PARC DINEFWR**
**PLAS BRONDANW**
**PLAS NEWYDD**
**PLAS TAN Y BWLCH**
**PLAS YN RHIW**
**TRESGAWEN**






www.ecorwyddfa.co.uk

# Garddio

## MEHEFIN

Mae Gŵyl Fwyd Caernarfon ymlaen wrth ysgrifennu hwn, unwaith eto eleni. Dwi'n siŵr bod amser yn carlamu ymlaen yn gynt, yn enwedig wrth i mi fynd yn hŷn. Yn ôl pob son mae pobl yn trefnu priodi ar ddiwrnod yr Ŵyl Fwyd erbyn hyn, er mwyn sicrhau diwrnod braf… Chawson nhw ddim eu siomi eleni yn sicr, gyda'r haul yn gynnes braf a fawr o wynt oer. Fel garddwr (a'r ffermwyr yn eich mysg yn cytuno) mae angen glaw, gan fod y cafnau dwr yn prysur wagio a'r briallu yn gwywo yn y borderi. Ar y llaw arall, mae hi'n braf cael eistedd allan a mwynhau edrych ar ffrwyth yr holl lafur. Rwy'n dotio at sŵn y gwenyn yn suo yn y blodau ac yn gwerthfawrogi'r gwaith pwysig maent yn ei wneud yn peillio blodau o bob math. Mae'r coed eirin ac afalau wedi bod yn llawn blodau eleni, felly, diolch i'r gwenyn, gobeithio y byddwn ni (ac nid adar yr ardd) yn gwledda ar ffrwythau ddiwedd yr haf. Darllenais ar y we gallwch chi (a'r gwenyn a phryfetach) weld os yw'r blodyn glas nad af i'n angof (*forget me not*) wedi ei beillio gan fod y melyn yng nghanol y blodyn yn raddol droi'n wyn. Mae hyn yn ei dro yn deud wrth y gwenyn am beidio mynd at y blodyn hwnnw gan fod rhywun eisoes wedi bod yno o'i flaen o. Da ydy Natur. Wrth gwrs mi es i'r ardd i weld os oedd rhai efo'r canol wedi troi'n wyn. Mi oedd rhai, a dyma'r lluniau o beth welais.





Nad af i'n angof

**Tasgau**

1. Daliwch ati i chwynnu. Mae'n anoddach pan yw'r pridd yn sych gan fod tuedd i'r gwreiddiau ddal yn sownd ac i'r dail ddod i ffwrdd yn eich llaw. Dydw i ddim yn wych efo'r hof ond mae'n well i fy nghefn i na cheisio tynnu pob un â llaw. Os na allwch chi dynnu nhw o'r gwraidd casglwch y pennau blodau fel nad ydy'r hadau'n gwasgaru ar hyd yr ardd. Mae'r dant y llew'n arbennig o dda am wneud hynny tra bo crafanc y frân(*buttercup*) yn ymledu drwy yrru breichiau allan sy'n gwreiddio o'r planhigyn gwreiddiol, a choeliwch fi os na chewch chi'r gwreiddyn i gyd allan mi fydd yn dal i dyfu.
2. Gyda'r Bwrdd Dwr eisoes yn dweud bod angen gofal efo faint o ddŵr rydym yn ei ddefnyddio (heb son am faint sy'n gollwng o'u pibellau diffygiol nhw) byddwch yn ddarbodus efo dŵr. Defnyddiwch gan dwr wedi ei lenwi o gasgen ddŵr os yn bosib a meddyliwch pa blanhigion sydd mwyaf angen eu dyfrio. Y blaenoriaethau yw planhigion newydd eu plannu , gan na fyddant wedi magu gwreiddiau yn y pridd eto. Llysiau (gan gynnwys riwbob), os am gnwd da, tra bod unrhyw fath o blanhigyn mewn cynhwysydd yn sychu allan lawer cyflymach na'r rhai sydd a'u traed yn y pridd. Does dim pwrpas i ddyfrio pan fo'r haul allan neu bydd y dŵr yn anweddu a'r planhigion yn dal yn sychedig. Peidiwch â rhoi ychydig yn aml, mae angen eu socian go iawn i annog y gwreiddiau i dyfu'n ddwfn yn y pridd, a chadwch y can dwr yn agos i'r pridd, yn hytrach nag ar ddail y planhigion.
3. Peidiwch â gadael i'r tŷ gwydr fynd yn rhy boeth. Os ydach chi wedi bod allan ac yn sylwi ei bod hi'n llethol pan gyrhaeddwch adref, agorwch bob ffenestr a '*vent'* posib. Taenwch ddŵr ar y llawr i oeri'r tymheredd a rhoi lleithder i'r aer. Ym mis Mehefin mi fyddai'n gadael hanner uchaf drws y tŷ gwydr ar agor yn ystod y dydd, os nad ydan ni o gwmpas (heb i'r un ddafad fedru ffeindio ei ffordd i mewn).
4. Un joban sydd angen ei gwneud yn gyson yw tynnu'r 'lladron' oddi ar y tomatos fel bod y prif blanhigyn yn cael y nerth i gyd ac i sicrhau cnwd da o domatos blasus ymhellach ymlaen.



Letys

5. Dwi'n hoffi tyfu letys o bob math. Rhai lle ydach chi'n codi'r letysen gyfan a rhai sydd jest angen tynnu'r dail yn ôl yr angen (*cut and come again*), wneith ail dyfu ychydig o weithiau. Ond mi fydd angen hau mwy i sicrhau digon i mi, mam a phwy bynnag arall sy'n galw acw. Os am salad drwy'r haf mae angen dal ati i hau letys, rhuddygl (radish) a nionod gwyrdd mân bob rhyw bythefnos i dair wythnos. Erbyn diwedd mis Mehefin, gobeithio'n arw y bydd yma datws newydd i fynd efo'r salad hefyd, croesi bysedd na fyddan nhw fel marblis!
6. Pan oeddwn yn byw yn Sir Fôn byddwn i bob amser yn plannu basgedi crog a'u rhoi allan ym mis Mehefin. Dim gobaith mul mewn Grand National yma, mae'n llawer yn rhy wyntog. Mae gen i focs ffenast (sydd angen ei ddyfrio'n aml gan ei fod yng nghysgod y tŷ) fodd bynnag, sydd ddim yn annhebyg o ran ei anghenion tyfu. Os ydach chi mewn man digon cysgodol i grogi basgedi, cofiwch eu dyfrio'n aml. Defnyddiwch fwced o ddŵr, mae'n haws na cheisio eu dyfrio wrth sefyll ar ben ysgol, ac yn fwy diogel.
7. Os oes llwyn eisoes wedi blodeuo yn y gwanwyn, nawr yw'r amser i'w tocio nhw ac felly sicrhau blodau ar gyfer y flwyddyn nesaf.
8. Mi ydw i wirioneddol isio torri dail bylbiau'r gwanwyn sydd yn y potiau sy'n mygu popeth arall ond wnâi ddim. Maent eisoes wedi cael gwrtaith ac efo dipyn o fynadd mi gai'i blannu pethau at yr haf pan fyddant wedi darfod. O ran codi tiwlips, dydw i ddim wedi codi'r rhai sydd yma ers tua dwy flynedd. Hyd yma maent yn dal i flodeuo'n hardd, er gwaetha'r tywydd garw dros y gaeaf. Mae'r gwybodusion yn dweud y dyliech eu codi a'u sychu a'u hail blannu ym mis Tachwedd, efallai byddai'n difaru yn 2026.

**Cnoi cil**

Mae bod allan yn yr awyr iach a gweld pethau'n tyfu yn llesol i'r corff a'r enaid. Gardd fach sydd gen i ac mi ydw i'n ceisio tyfu pethau o hadau, toriadau a phrynu cyn lleied â phosib. Er hynny, mae'r gŵr yn poeni bob tro ydan ni'n mynd i mewn i ganolfan arddio ac mi fyddai'n siŵr o weld ambell i beth wneith ffitio yn rhywle acw. Dydy bob dim ddim yn llwyddo, ond dwi'n dysgu o hynny ac yn hoffi'r sialens o geisio creu gardd hardd a chael ambell i bryd o fwyd ohoni hefyd, heb wario ffortiwn.



Berfa

Soniais am ail-bwrpasu hen ferfa binc flwyddyn yn ôl. Hyd yma mae'r briallu a'r grug wedi bod yn hardd. Chefais i ddim blodau ar y cennin pedr blannwyd llynedd yn y ferfa nac ar y stepiau sy'n rhedeg ger ochr y tŷ, ond debyg bod y defaid wedi mwynhau bwyta'r dail pan doeddwn i ddim o gwmpas. Plannais fwy ac mi ddaeth cennin pedr bach yn y gwelyau ar ochr y stepiau'n ogystal â phlannu briallu canwyllbrennau (*candelabra primulas*) briallu melyn a phinc a'r pabi Cymreig (i gyd o hadau gan ffrindiau neu o beth oedd eisoes yn tyfu yn yr ardd). Felly er bod y defaid wedi cael gwledd, chostiodd o fawr i mi.

**Rhosyn Mynydd**



**Primula a pabi Cymreig**



**Primula**

# Tai Melinyddion a'r Felin Wen

Roedd Tai Melinyddion a Ffatri Wlân Pontrug wedi eu lleoli ble roedd afon Ifor yn llifo i'r Saint, rhwng ffordd Pontrug–Caeathro, ac i lawr y llethr sy'n disgyn am y Saint. Felly, hawdd iawn dychmygu fod cysylltiad rhwng y ddau adeilad – ac efallai bod erbyn adeiladu'r Ffatri Wlân yn dilyn cytundeb 1837. OND – ac y mae'n 'ond' go sylweddol – roedd Tai Melinyddion yn bod o leiaf 80 mlynedd ***cyn*** adeiladu'r Ffatri Wlân, pan nad oedd melin ar y safle.

Y cofnod cyntaf y deuthum ar ei draws yn enwi Tai Melinyddion yw 1755, yng Nghofrestrau Plwyf Llanrug. Felly, ble oedd y felin yr oedd angen cartref i ba bynnag felinydd oedd yn gweithio ynddi?

Gwyddom fod un felin yn bodoli cyn y dyddiad hwn, sef y Felin Wen; wedi ei lleoli ar lan afon Saint ar waelod yr allt serth iawn sy'n disgyn at yr afon rhwng safle'r Sopna presennol (a oedd yn gynharach yn cael ei alw yn Felin Wen hefyd) a Fferm Cefntrersaint (Kent). Tybed ai melinyddion yn gweithio yn y Felin Wen oedd yn byw yn Nhai Melinyddion?

Mae cofnod o adeiladu'r Felin Wen ar lan yr afon ar gael ym mhapurau Llanfair-Brynodol, ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol – stad Plas Llanfair, Llanfair-is-gaer; ac yr oedd rhannau o Bontrug ym mhlwyf Llanfair-is-gaer mor gynnar â hynny. Mae'r cofnod yn rhoi caniatâd i adeiladu'r *"velyn wenn"* ym mis Rhagfyr 1475. Yna, ym mis Awst y flwyddyn ddilynnol, rhoddwyd hawl i agor ffos iddi *"from the bank of the river Saynte"*. Y llyn cronni ar gyfer y ffos hon a ddaeth dros dri chant a hanner o flynyddoedd yn ddiweddarach i'w alw yn Llyn William Owen.

Ond nid melin wlân oedd y Felin Wen, ond melin flawd. Ni fu'r felin hon heb ei thrafferthion chwaith; yn sefyll yn union ar lan yr afon, gyda gallt serth iawn tu cefn iddi, roedd mewn cryn berygl pan fyddai llifogydd yn sgubo i lawr yr afon. A dyna'n union ddigwyddodd yn 1756. Roedd 'llif Awst' y flwyddyn honno'n eithafol, a chwalwyd y felin. Costiodd £5-13-9 (pum punt, triswllt ar ddeg a naw ceiniog) i'w hail adeiladu – tua £500 yn arian heddiw. Mae'n amlwg felly fod y felin yn llwyddiannus, a'i bod yn werth gwario cymaint am ei hail sefydlu.

Daw cadarnhad fod melinydd y Felin Wen yn byw yn Tai Melinyddion yn 1820 (bron i ugain mlynedd cyn adeiladu'r Ffatri Wlân). Yng Nghofrestr Claddu Plwyf Llanrug cofnodir farwolaeth *"John Thomas, Tai Melinyddion, Pontrug".* Yr oedd Rheithor y plwyf bryd hynny, y Parchg Peter Bailey Williams, yn rhoi nodyn ymyl-y-ddalen yn bur aml gyferbyn â rhai o'r cofnodion claddu; a dyna a geir yn hanes John Thomas –*"Miller who died in consequence of the injury he received by having been accidentally entangled in the wheels of the mill (Felin Wen), and he was hurt on Wednesday, and mortification took place on Saturday, and he died on Sunday night. An inquest was held on the body by Edward Carreg Esquire, Coroner."* Gŵr ifanc chwech a deugain oed oedd y melinydd, ac ni ellir ond dychmygu ei ddioddefaint rhwng y dydd Mercher a'r nos Sul pan fu farw o'i glwyfau.

Bedair blynedd yn ddiweddarach bu marwolaeth arall yn y Felin Wen, ond doedd dim cysylltiad â Thai Melinyddion. Bachgen naw oed o fferm Dolgynfydd oedd Humphrey Davies, ac mae'n bosib ei fod yn gweithio yn y felin. Mae'r cofnod gan y Rheithor ar Gofrestr Claddu 1824 yn nodi: *"An inquest was held on the body. The boy was killed at the mill (Felin Wen) in attempting to descend by a rope from the Granary through a trapdoor, and fell on his head on a stone floor."*

Erbyn Cyfrifiad 1841 roedd dau deulu'n byw yn Tai Melinyddion: teulu Thomas Evans, sy'n disgrifio'i hun fel *'miller'* a theulu William Lewis sy'n *'mill carrier'*. Roedd y ddau deulu yno yn 1851 hefyd, ond fod William Lewis erbyn hyn yn labrwr.

Does dim sicrwydd, wrth gwrs, pa felin oedd yn cyflogi'r ddau.

Nid yw Thomas Evans a'i wraig yn bresennol ar noson Cyfrifiad 1861, ond roedd ei fam yng nghyfraith yno yn gofalu am ei dri phlentyn ifanc, sy'n cael eu disgrifio fel '*children of miller*'. Nid yw William Lewis yno chwaith.

Erbyn 1871 does dim sôn am unrhyw fath o waith yn ymwneud â melin, ac erbyn 1881 nid yw'r enw Tai Melinyddion yn ymddangos.

Aeth yr enw'n angof, cymaint felly fel na chaiff ei gofnodi ar unrhyw garreg fedd ym mynwent Llanrug.

Os oes unrhyw un â mwy o wybodaeth am y gwahanol felinau ym Mhontrug, cysylltwch. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd@wthomas.btinternet.



**Ffos Felin Wen**

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 37

Dyma hanes cath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Y 3 cath fwyaf enwog mewn ffilm neu gartŵn yw Garfield, Tom (a Jerry) a Felix. Pan ddaeth Bob i fyw yma, roedd fy merch yn mynnu ei alw'n Garfield ar ôl y gath oren, gydag agwedd, o'r cartŵn a ffilmiau. Mae Garfield yn ddiog ac yn hoffi pryfocio ei gi Odie a gwylltio ei berchennog Jon. Am ryw reswm mae o'n fy atgoffa fi o Bob hefyd. Ond peidiwch â deud hynny wrth y ferch! Yr ail gath fwyaf enwog yw Tom, o'r Sioe Tom a Jerry. Fel plentyn roeddwn yn mwynhau gwylio'r gath a'r llygoden yn cystadlu efo'i gilydd i weld pwy oedd yn gallu creu'r mwyaf o niwed i'r llall. Tebygrwydd i Bob? Mae o'n trio'i orau i ddal y llygoden, ond fel arfer y llygoden sydd a'r bawen uchaf, a dydy o byth yn llwyddo! Felix yw'r drydedd seren fwyaf enwog, gan gychwyn ei yrfa yn y 1950egau, sy'n ei wneud yn un o'r cathod cartŵn hynaf!*

*Ond beth sydd gan hyn i gyd i'w wneud efo Bob? Mi geith o ddeud y stori:*

"Ers wythnosau bellach mae'r ddeu-droed fach a'r un tal wedi bod yn brysur y tu allan i'r tŷ. Mae hi'n treulio lot o amser tu allan, os yw'n braf, ac mi fydda i'n mwynhau ei dilyn hi o gwmpas, jest i weld beth mae hi'n ei wneud. Mae hi wedi bod ar ben stepiau yn 'paentio' sy'n golygu brwsio stwff gwyn dros bob wal sydd o gwmpas yr ardd. Mae o wedi bod yn sefyll ar waelod y stepiau rhag ofn iddi ddisgyn ac yn pasio pethau iddi. Mae'r holl waith rwbath i wneud efo S4C. Cathod a ŵyr pwy neu beth ydy hwnnw neu honno.

Mae'r deu-droed mawr wedi bod yn gwthio'r peiriant swnllyd hyd y gwair a hithau'n chwifio peiriant arall llai swnllyd o gwmpas ymyl y gwair i'w wneud o'n dwt. Twt? Twt! I be ddeudwch? Dwi'n licio'r gwair ychydig yn dalach a thrwchus oherwydd mae'n haws cuddio i geisio dal y pethau bach, pedair troed flewog.

Yn ogystal â rhoi stwff gwyn dros y waliau a hi ei hun, mae hi wedi bod yn dyfrio'r palmentydd o gwmpas y tŷ. Mae hi'n defnyddio peiriant swnllyd melyn ac mae'r dŵr sy'n dod o'r peiriant yn brifo os ydach chi'n ddigon gwirion i fynd yn rhy agos ato fo. Dwi'm yn wirion, felly dwi'n anelu am y tŷ a chael napan ar y gadair o dan y bwrdd. Pan mae popeth yn wlyb a glân mae wrthi eto, fel lladd nadroedd yn tynnu planhigion bach allan o'r hafnau rhwng y craciau yn y palmentydd. Pam tybed?

Gyda'r nos, pan dwi'n smalio cysgu, maen nhw'n gwylio lluniau ar y bocs hirsgwar, o erddi pobl eraill. Ai fi ydy o, neu ydy'r deu-droediaid yma'n mynd yn wirionach wrth iddynt heneiddio!

Heddiw pan ddaeth deu-droediad newydd i'r tŷ mi aeth fy neu-droed fach i a hi am dro o gwmpas yr ardd. Dim syniad pam, ond eto rywbeth i wneud efo'r S4C yma. Yn ôl pob son bydd dyn 'camera' efo hi'r tro nesaf. Dwi wedi gwylio'r deu-droediaid yn tynnu lluniau efo'r pethau bach hirsgwar sy'n byw'n eu pocedi, tybed felly os ydy 'camera' yn fersiwn mwy o'r rheiny?

Mae'r ddeu-droed ddiarth yn ei hôl efo'r deu-droed Gethin. Dwi'n cuddio ar fy nghadair o dan y bwrdd, ond mae o'n dod ata'i ac yn rhoi mwythau i mi, cyn i mi gael siawns i ymosod! Dwi'n licio fo, does dim llawer o bobl yn mentro fel gwnaeth o. Wna'i gadw llygaid arno fo dwi'n meddwl. Mae o hefyd yn defnyddio 'camera' i dynnu llun ohona i! Heb ganiatâd…



Mae'r deu-droed tal a minnau'n aros yn y tŷ tra mae'r tri arall yn mynd allan i'r ardd efo'r 'camera' er dwi'm yn meddwl bod S4C efo nhw. Maen nhw allan am hydoedd, siŵr bod nhw'n oer, gan fod y gwynt yn fain. Raid bod nhw'n gallu darllen fy meddwl i, oherwydd mewn chwinciad chwannen maen nhw'n ôl ac mae'r Gethin deu-droed yn tynnu lluniau o bethau yn y ty.

Pan maen nhw'n mynd yn ôl allan dwi'n eu dilyn o gwmpas yr ardd. Maen nhw'n tynnu lluniau o'r blodau a fy neu-droed ac mae hi'n siarad efo'r camera a wir i chi, cyn i mi sylweddoli be sy'n digwydd, mae'r 'camera' yn tynnu fy llun i!



A dyna fi yn enwog unwaith eto! Mi ydw i am fod ar S4C efo hyhi ar rywbeth o'r enw Garddio a Mwy! Wnaethon nhw ei wylio fo'r noson o'r blaen. Welsoch chi'r rhaglen ar eich bocs hirsgwar? Welsoch chi fi? Welsoch chi'r ddeu-droed fach a'r ardd? Dwi'n enwog, meddan nhw."

Nid Bob sy'n cael y gair olaf y mis hwn er mae'n debyg mai Bob oedd seren y sioe, unwaith eto. Gobeithio cawsoch chi gyfle i wylio'r ardd yn Neiniolen ar y rhaglen Garddio a Mwy ar y 13eg Mai. Gallwch ei wylio ar y BBC i-player neu S4C Clic os na gawsoch chi gyfle. Bydd mwy i'w weld ar YouTube hefyd os ddilynwch chi'r linc yma: https://youtu.be/RV8lnrV3p3s

Bu'r broses o ffilmio (drwy'r bore yn brofiad diddorol. Pwynt bonws, mae'r ardd yn daclusach nag y buodd hi ers tro, fydd yn golygu llai o waith dros weddill fisoedd yr haf, gobeithio. Pwy fagai gath?







Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl

LLYSIAU LLEOL FFRES

Ymunwch â'n cynllun llysiau!

Dewch i'n siop!

- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# Ar ben arall i'r lein



Ar ddiwedd adroddiad y mis diwethaf gwnes addewid y buaswn yn canolbwyntio y tro hwn ar ddaliadau'r mis oedd o'n blaenau. Roedd hynny wrth gwrs dan y dybiaeth y byddai tipyn o helfa wedi bod o gwmpas yr hen le 'ma. Yn anffodus, nid fel yna mae pethau wedi bod. Ydi, mae'r dynfa i Lyn y Dywarchen wedi bod yn gryf ac wedi arwain at nifer o aelodau newydd yn dod i'r gorlan. Yn ogystal â hynny, mae gwerthiant tocynnau tymor y cychod wedi bod y gorau erioed. Mae'n bosib bod rhai'n troi cefn ar yr afonydd ac yn mwynhau porfeydd newydd. Ydi, mae'n arbennig cael bod ar gwch a gallu rhoi materion yr hen fyd yma ar un ochr am rhyw ychydig.

Sut mae'r daliadau? Araf iawn fu pethau, ac mae a wnelo hynny fwyaf tebyg â'r tywydd arbennig a gafwyd. Mae'n iawn i ni gael tipyn o liw haul, ond dydi o'n dda i ddim i'r brithyll. Ond er hynny, mae rhyw ychydig wedi dod i'r rhwyd, ac mi ddaw rhagor cyn bo hir. Heddiw, sef dydd Llun Gŵyl y Banc dechrau Mai, mi roddwyd 50 o frithyll yr enfys ychwanegol yn y Dywarchen. Roedden nhw'n werth eu gweld ac yn pwyso hyd at 4 pwys. Anfonwch dipyn o luniau i'w rhoi ar ein tudalen '*facebook*'. Tydw i ddim am roi addewidion am ragolygon daliadau am yr wythnosau i ddod, ond mi fentraf ddweud y bydd pethau'n gwella. Mi ddyweda' i ragor am hyn y mis nesaf.



Stocio Dywarchen 5ed Mai



Brithyll perffaith Ebrill Llyn Padarn

Mae'n dda gweld fod nifer o'r cychod wedi bod allan ar ein llynnoedd eraill. Eto, mae pethau wedi bod yn araf; ond yma ac acw mae brithyll gwerth eu gweld wedi dod i'r bluen. Mae nifer o adroddiadau o ddaliadau wedi dod o lynnoedd Padarn a Nantlle, ond dim byd wedi dod i'm clyw o Cwellyn.

Ar yr afonydd, er bod ychydig frithyll wedi dod i law, does dim hanes o'r eog na'r gwyniaid. Ond braidd yn fuan ydi hi eto, ac fel daw canol Mai a bysedd y cŵn yn blodeuo, daw'r amser i drio am y pysgod arian yma. Mae'r rhagolygon yn dda gan fod nifer dda o wyniaid wedi gaeafu yn y Fenai, yn ôl y sgotwrs 'bass'.

O gysidro be sy'n mynd ymlaen a'r holl ddifaterwch sydd gan ein hawdurdodau tuag at bysgota a glendid ein dyfroedd, y diweddaraf i ddod i'm sylw ydi tyfiant yr algae gwyrdd/glas ar ddyfroedd Llyn Tegid. Be ydi ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru a phawb arall sydd ddim eisiau newyddion negyddol? Yr ateb wrth gwrs ydi bod hyn yn ddigwyddiad naturiol. Wel, mae pawb ohonom y ffordd yma'n cofio'r un sylw'n cael ei wneud am yr algae ddaeth i Lyn Padarn. Yma eto, fe roddwyd arwyddion 'Dim nofio / Perygl i anifeilaid'. Ond yn y pen draw, beth oedd gwreiddyn y broblem? Carthffosiaeth wrth gwrs. Do, mi gafwyd dau achos llys i geisio sicrhau bod rhywbeth yn cael ei wneud. Tydw i ddim eisiau eich byddaru hefo manylion na chanlyniadau'r achosion a arweiniodd at oddeutu £8,000,000 yn cael ei wario ar uwchraddio gwaith carthffosiaeth a systemau draenio Llanberis. Mater naturiol? Sgwn i? Cawn weld be ddaw felly yn y Bala; ond diolch i'r drefn oedd hi bod y Gymdeithas Bysgota'n aelod o *Fish Legal.* Heb eu gwaith a'u styfnigrwydd mae'n bosib na fyddai dim wedi cael ei wneud yma. Yn anffodus, yn yr ardal yma mae rhai'n ddigon parod i anghofio gwaith y Gymdeithas ynglŷn â'r mater difrifol yma. Fel y dywedodd Cynan, *'Amser, sy'n dadfeilio popeth'.*

Ac o droi'n ôl at Lyn Padarn, a phroblem fawr arall, mae dros ddwy flynedd ers i'r Clwb ddechrau tynnu sylw'r awdurdodau at broblem tyfiant y chwyn ymledol sydd erbyn heddiw'n bla o gwmpas y lle. Mae'r Gymdeithas wedi bod yn erfyn am wybodaeth am yr hyn sy'n mynd ymlaen. Hefyd, adroddwyd yn yr Eco diwethaf bod Cyngor Cymuned Llanberis wedi gofyn i Barc Padarn be sy'n mynd ymlaen. Dyma i chwi'r diweddaraf a ddaeth o'r Parc.

*Mae caniatâd i ddefnyddio dwy system o waredu, sef gyda'r cychod truxtor a jute matting. Pan fydd y chwyn yn cael ei godi fe fydd yn cael ei osod ar lan y Llyn, lle bydd yn aros mewn ardal wedi'i ffensio am hyd at 72 awr i sicrhau y gall pob bywyd gwyllt dyfrol gael mynediad at ddŵr eto. Fe fyddwn yn ei symud oddi ar y safle ar ôl 72 awr. Trwydded yn dod i ben 31/12/2025.*

Diolch i Carwyn Williams, Rheolwr Parc Padarn am y wybodaeth.



Peiriant torri chwyn Truxtor fydd ar ddefnydd ar Padarn a 'Mat Jute' a fydd yn cael ei osod ar waelod y llyn.



Mae cryn gwyno ynglŷn â'r gor-bysgota gan gychod ffatri mawr o'r Undeb Ewropeaidd ar hyd moroedd y gogledd. Un o'r targedau yw llysywod y tywod. Wedi eu prosesu, maent yn cael eu defnyddio fel tanwydd ar gyfer rhai gorsafoedd pŵer, bwyd anifeilaid ac i fwydo'r ffermydd eog enfawr sydd o amgylch gogledd yr Alban. Oes, mae llawer o feirniadu am bolisiau pysgota masnachol; ond yn y fan hyn mae'n rhaid rhoi canmoliaeth i'r Llywodraeth yn Llundain am sylweddoli'r niwed y mae pysgota o'r fath yn ei wneud i gadwyn fwyd llawer o'n bywyd gwyllt. Canlyniad hyn oedd deddfu bod pysgota masnachol am y sliwod bach yma i'w wahardd yn gyfan gwbl o 26 Mawrth 2024 yn nyfroedd Prydain a'r Alban o Fôr y Gogledd. Daeth hyn â gwrthwynebiad cryf o'r Undeb Ewropeaidd, a arweiniodd at wneud apêl yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Cyflafareddu. Daeth dyfarniad y tribiwnlys ar 28 Ebrill 2025, a hyn yn cadarnhau'r gwaharddiad. Ardderchog yn de! Am fwy o wybodaeth am hyn, gwelwch: *Publication of Ruling in Arbitration Concerning UK-Sandeel (The European Union v. the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland)*

Cawn weld beth fydd canlyniad hyn yma i ni ymhen rhyw ddwy flynedd.

A dyma i chwi englyn o waith y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda. Mae rhyw dderyn bach wedi dweud wrthyf ei fod wedi bod yn sgotwr amser maith yn ôl!

***Er cof am Elfed Jones, Bethesda***

*Y llyn oedd llonyddwch – i'w enaid,*
*ac i lyn tawelwch*
*yn y gwyll, llithrodd ei gwch*
*o'r geulan i'r dirgelwch.*
*Ieuan Wyn*

Mae'n amlwg fod tipyn mwy o'r awen gan bysgotwyr Dyffryn Ogwen, ac mi fydd mwy yn dilyn yn y misoedd nesaf. Ond efallai bydd rhai o feirdd a amgylch ein tair afon a'n llynnoedd wedi deffro erbyn hynny!

**Huw Price Hughes**

# Cymru yn disgleirio yn y Byd Rasio Ceffylau

Mae Rasio Ceffylau yn gamp sydd ymlaen 363 diwrnod y flwyddyn gyda 2 ddiwrnod o saib dros y Nadolig.

Mae'r gamp wedi ei rhannu'n ddwy: y Neidio ac ar y Fflat, ac er bod 3 trac rasio yng Nghymru nid yw Cymru wedi cael llawer o hwyl yn y gamp yn y 21ain ganrif.

Rhaid mynd yn ôl dros 100 mlynedd am geffyl Cymraeg yn ennill y *Grand National* yn Aintree a hynny gyda Kirkland yn 1905. Ond mae 13 joci Cymraeg wedi ennill y marathon yn Aintree, yn fwy diweddar Hywel Davies ar *Last Suspect* 1985 a Carl Llywelyn yn 1992 gyda *Party Politics* ac eto wedyn yn 1998 ar *Earth Summit*.

Yng Nghwpan Aur Cheltenham, sydd yn goron ar Ŵyl Rasio Cheltenham ym mis Mawrth, yr enillydd mwyaf diweddar o Gymru oedd yn 1990. Sef Norton's Coin am y pris rhyfeddol o 100/1!

Ar wahân i ambell i lwyddiant does dim gymaint o lwc wedi dod o ongl Gymraeg ers rhai blynyddoedd bellach.

Ond bu newid i hynny'r tymor yma. Gyda thymor y '*Jumps*' yn dechrau ym mis Mai 2024 ac yn dod i ben ar Sadwrn olaf mis Ebrill 2025. Roedd tymor 2024-25 yn un llwyddiannus i Gymru. Ymysg yr Hyfforddwyr Cymreig roedd rhywfaint o lwyddiant i Stablau Evan Williams ac i Christian Williams.

Ond ymysg y jocis roedd y Cymry yn disgleirio. Lorcan Williams oedd y joci a enillodd un o Brif Rasys Gŵyl Geffylau Cheltenham sef y '*Champion Hurdle'* a Williams, gyda'i geffyl *Gold Tweet,* yn cipio'r ras oedd yn llawn drama. Gyda'r ddau ffefryn clir yn disgyn ar y clwydi. Nid yn unig wnaeth Lorcan Williams gipio y *Champion Hurdle* ond hon oedd Ras Gradd 1 cyntaf i Williams ei hennill.

Roedd hi'n dymor da i Ben Jones a Jack Tudor gyda'r ddau yn gorffen yn y 10 uchaf yn Nhabl y Jocis. Ond y Brodyr Bowen oedd yn cymryd y sylw mwyaf. James Bowen yn ymuno â Jones a Tudor yn y 10 uchaf yn y tabl a'i frawd Sean yn cael ei dymor gorau eto.

O'r cychwyn cyntaf ym mis Mai aeth Sean Bowen i frig y Tabl Jocis. Dyna ble arhosodd Bowen am dymor cyfan bron. Y joci o Sir Benfro yn dangos ei dalent mewn tymor a hanner. Er bod Harry Skelton yn dynn ar ei sodlau. Gwnaeth Bowen ddigon er mwyn gorffen y tymor yn Bencampwr Jocis Prydain, wedi ennill 180 ras yn ystod y tymor. Mi enillodd Bowen 38 ras yn fwy na Skelton yn yr ail safle yn y diwedd. A'r ddau ymhell yn glir o Harry Cobden yn y trydydd safle.

Cipiodd Sean Bowen deitl y jocis 10 mlynedd ar ôl iddo ennill y teitl yr Amaturiaid, y '*Conditional Jockeys*' yn 2015. Bowen yw'r 4ydd Cymro i gipio'r teitl jocis a'r Cymro cyntaf i wneud hynny ers 70 o flynyddoedd.

Ond cyn cael ei goroni yn Bencampwr Joci y Flwyddyn roedd un ras fawr arall i'w hychwanegu i CV Bowen. Digwyddodd hynny ar Ddydd Llun y Pasg dros Fôr Iwerddon yn Fairyhouse ar gyfer *Grand National* Iwerddon.

Sean Bowen oedd joci *Haiti Couleurs* ceffyl hyfforddwraig arall o Gymru, Rebecca Curtis.

Roedd *Haiti Couleurs* yn ail ffefryn am bris o 13/2 ar ddechrau ras fawr. O'r dechrau

roedd *Haiti Couleurs* a Sean Bowen ymysg y ceffylau blaen ac yn dangos gallu'r ceffyl a'r joci. Arweiniodd y ddau yn o'r blaen i ennill *Grand National* Iwerddon yn rhwydd yn y diwedd. Buddugoliaeth i Gymru yn Iwerddon. Rebecca Curtis yn ennill ei *National* cyntaf fel hyfforddwr. A hon yn goron ar dymor arbennig i'r joci Sean Bowen. Gyda'r gŵr o Sir Benfro yn cipio tlws Joci y Tymor ddyddiau yn unig wedyn ar Sadwrn olaf y tymor yn Sandown.

Tymor arbennig i jocis Cymru a llwyddiant i'r hyfforddwyr hefyd. Biti nad oedd gymaint o sylw yn cael ei roi am y llwyddiant hwn. Ond, efallai blwyddyn nesaf y cawn weld llwyddiant yn Aintree neu Cheltenham i Gymru a dod a'r aros i ben. Cawn weld yn ystod y tymor nesaf.

***Elgan Rhys Jones***

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >

## DAL I REDEG

## ... ar y mynydd



Ras Pendinas

Mae'n syndod meddwl bod y gyfres Rasys Nos Fawrth wedi parhau ers diwedd y ganrif ddiwethaf – ac yn dal i fynd o nerth i nerth. Ar y cychwyn, cwta ddeg ar hugain o redwyr fyddai'n troi allan bob wythnos o Ebrill i Orffennaf. Bellach mae dros 200 o redwyr wedi cofrestru ar gyfer y gyfres, a thros 150 yn troi allan i herio'r gelltydd a'r tywydd yn rheolaidd. Cyflwyniad i redeg mynydd oedd bwriad gwreiddiol y gyfres, ond mae pob ras bellach yn cynnig heriau gwahanol i redwyr mynydd profiadol.

Ras Pen Dinas o Nant Peris oedd y gyntaf o'r rasys i'w cynnal o fewn ein bro, a chafwyd tywydd sych, gyda haul hwyrddydd yn taro ar gefnau'r rhedwyr wrth ddringo'r allt hynod o serth. Roedd nifer dda o blant hefyd yn herio'r llethrau isaf – ac mae mwy nag arfer yn troi allan yn rheolaidd, a phawb yn mwynhau ac yn derbyn 'gwobr' o ffrwyth neu siocled ym mhob ras.

Rhedwr lleol o Lanberis, Deri Hockley, sy'n serennu yn adran ieuenctid dan 20 oed y prif rasys ar hyn o bryd: un i'w gadw mewn golwg ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn Ras Pen Dinas, cynhaliwyd Ras Moel Eilio – un o glasuron y calendr rasio mynydd, ac un sy'n cael ei chymharu o ran heriau i Ras yr Wyddfa. Cymharer y ffaith fod record Ras yr Wyddfa yn 62 munud am redeg 10 milltir, ond dim ond 58 munud yw record Ras Moel Eilio am 2 filltir yn llai o bellter. Yr amrywiaeth yn y tirwedd sydd i gyfrif am hynny – dringfa hir a serth i gopa Moel Eilio, cyn cyrchu'r grib am y Foel Gron a'r Foel Goch. Disgyn wedyn i Fwlch Maesgwm a wynebu cefnen ddi-ddiwedd Moel Cynghorion cyn hyrddio i lawr y llethr ac ymuno â Llwybr Maesgwm a'i ddilyn i ddiwedd y ras ger Llwyn Celyn.

Daeth 75 o redwyr o bob oed i'w rhedeg ar ddiwrnod heulog, ond roedd gwynt cryf a main ar y copaon. Roedd ambell stiward ar y copaon wedi fferru! Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae holl elw'r ras yn cael ei gyflwyno i elusen Gofal Cancr Tenovus, a diolch i Jane Lloyd, Pontrug a'i thîm gweithgar am roi o'u hamser i sicrhau llwyddiant y ras.

Roedd nifer dda o redwyr lleol yn cystadlu, ac eraill wedi teithio o Loegr oherwydd apêl y ras. Y rhedwr lleol cyntaf oedd Dyfed Thomas, Llanrug, a orffennodd yn 5ed mewn amser o 1 awr ac 13 munud, a hefyd yn 1af yn yr adran oedran dros 50 oed. Roedd tri o Glwb Rhedwyr Eryri yn y pum safle cyntaf. Llongyfarchiadau hefyd i Maggie Oliver (dros 75 oed) a'i gŵr Alwyn (dros 80 oed) o Ddinorwig am gwblhau'r ras.

## ... ar y ffyrdd



Ras Moel Eilio

Mae Ras Rhostryfan wedi ei chynnal yn ddi-dor ers 40 mlynedd, ac i ddathlu'r penblwydd daeth nifer dda yno i gystadlu, a rhai rhedwyr mynydd yn eu plith gan fod dringfa serth o'r pentref i fyny'r gelltydd am Rosgadfan ac ymlaen am Garmel cyn disgyn yn ôl i'r pentref. Daeth llwyddiant i redwyr lleol, gyda Phil Lynes, Llanrug yn gorffen yn 3ydd, ac Arwel Lewis, Bethel yn 22ain ac yn 1af dros 60 oed.

Erbyn y rhifyn nesaf bydd Rasys Llanrug a Bethel wedi eu cynnal. Trueni nad yw Ras Deiniolen a Ras Antur Waunfawr yn bodoli bellach.